wavehill
Social and economic research

wavehill.com

# Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi: Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad ar Ganllawiau Presenoldeb

**Adroddiad Drafft Awst 2023**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd


Ein swyddfeydd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa gorllewin Lloegr: 2–4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, London, N4 3EY

Manylion cyswllt

Ffôn: 0330 1228658

E-bost: wavehill@wavehill.com

Twitter: @wavehilltweets


Mwy o wybodaeth

www.wavehill.com

https://twitter.com/wavehilltweets


© Wavehill: Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Mae’r adroddiad hwn yn destun hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.



Awdur yr adroddiad

Megan Clark, Andy Parkinson, Hilda Bernhardsson

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn y lle cyntaf at megan.clark@wavehill.com



**Fersiwn:** Terfynol



Manylion y cleient

Sian Garstang, sian.garstang@gov.wales

# Cynnwys


1. Cyflwyniad a chefndir ..... 2
   1.1 Cefndir ..... 2
   1.2 Ymgynghoriad ..... 3
2. Dulliau ymchwil ..... 4
   2.1 Dull dadansoddol ..... 4
   2.2 Terminoleg ..... 5
   2.3 Cyfyngiadau ..... 5
   2.4 Ymatebion ..... 6
   2.5 Llywio'r ffordd drwy’r adroddiad hwn ..... 6
3. Canfyddiadau ..... 7
   3.1 Pa mor ddefnyddiol yw’r canllawiau i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol ..... 7
   3.2 Cyfrifoldebau rhanddeiliaid ..... 11
   3.3 Ffactorau sy'n cyfrannu: y nifer mawr o resymau posibl dros absenoldeb ..... 16
   3.4 Cynnwys pobl ifanc â nodweddion gwarchodedig ..... 19
   3.5 Pa mor ddefnyddiol, clir a defnyddiadwy yw’r canllawiau ..... 21
   3.6 Pa mor ddigonol yw’r wybodaeth ..... 23
   3.7 Diffiniad o absenoldeb cyson ..... 28
   3.8 Y Gymraeg ..... 30
4. Crynodeb ..... 32
5. Atodiadau ..... 34
   Atodiad 1: Data ..... 34
   Atodiad 2: Cwestiynau ymgynghori ..... 38
   Atodiad 3: Ymatebwyr sefydliadol ..... 42

## Rhestr o dablau

Tabl 2.1: Grwpiau o ymatebwyr sefydliadol ........ 6

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 3.1: A yw'r canllawiau'n rhoi gwybodaeth addas, ddefnyddiol ac ymarferol i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr? ........ 7

Ffigur 3.2: Ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 yn golygu ‘ddim o gwbl’ ac mae 5 yn golygu ‘defnyddiol iawn’) pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau drafft ‘Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi’ yn eich barn chi? ........ 21

# 1. Cyflwyniad a chefndir

Ar 5 Mehefin 2023, lansiodd Llywodraeth Cymru chwe wythnos o ymgynghoriad cyhoeddus i ofyn am farn ar y canllawiau yn y drafft ‘Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi: Canllawiau ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr’. Cyfeirir at y ddogfen ymgynghori o hyn ymlaen fel y 'canllawiau presenoldeb drafft'.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad annibynnol o ymatebion i'r canllawiau drafft ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr yng Nghymru. Mae'n cyflwyno’r farn a’r safbwyntiau fynegwyd gan ymatebwyr o ran nodau eang a nodweddion penodol y canllawiau a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori.[1]

## 1.1 Cefndir

Yng Nghymru, mae polisi a deddfwriaeth ynghylch presenoldeb yn yr ysgol yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio'r dirwedd addysgol a sicrhau y gall pob dysgwr gael profiadau dysgu o safon. Mae'r fframwaith cyfreithiol, ynghyd â mentrau'r llywodraeth, yn ceisio hybu presenoldeb rheolaidd, mynd i'r afael ag absenoliaeth parhaus, a chreu amgylchedd sy'n ffafriol i ddysgu effeithiol.

Conglfaen polisi presenoldeb yn yr ysgol yng Nghymru yw **Deddf Addysg (Cymru) 1996**, sy'n nodi'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu presenoldeb yn yr ysgol a chyfrifoldebau amryw randdeiliaid. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar rieni i sicrhau presenoldeb rheolaidd eu plant yn yr ysgol, ac mae hefyd yn gorfodi awdurdodau lleol ac ysgolion i fonitro a hybu presenoldeb.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno mentrau i wella presenoldeb a lefelau ymgysylltu. Mae’r **Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan** yn cynnig pecyn cymorth ar gyfer y Gwasanaeth Lles Addysg, gan amlinellu arferion gorau, ymyriadau a mesurau cyfreithiol. Fodd bynnag, mae'r dirwedd wedi esblygu, yn enwedig mewn ymateb i'r heriau a ddaeth yn sgil pandemig COVID-19, ac mae hyn wedi ysgogi adolygiad o bolisïau a strategaethau i ddarparu ar gyfer amgylchiadau newidiol a chynorthwyo teithiau addysgol myfyrwyr yn effeithiol.

[1] Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi: Canllawiau ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr yng Nghymru

Y datblygiadau diweddaraf o ran presenoldeb yng Nghymru yw'r canlynol:

- Ariannu £6.5 miliwn yn 2023/24 ar gyfer mwy o Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd i sefydlu perthynas gadarnhaol â theuluoedd a darparu arweiniad a gwybodaeth glir ar bresenoldeb da
- £2.5 miliwn yn 2023/24 ar gyfer Swyddogion Lles Addysg i alluogi gwasanaethau cymorth cynharach a darparu cymorth mwy dwys i ddysgwyr sydd â lefelau uchel o absenoldeb
- Mae'n ofynnol i bob ysgol gyhoeddi ei pholisïau presenoldeb neu sicrhau eu bod ar gael
- Estyn yn cryfhau gofynion adrodd ar bresenoldeb disgyblion.

Mae'r canllawiau drafft newydd yn nodi dulliau y gellir eu defnyddio gan ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion, a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol i helpu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr, a chan wasanaethau'r awdurdod lleol a phartneriaid eraill pan fydd materion presenoldeb yn gwaethygu.

## 1.2 Ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at unrhyw un sydd â rôl neu ddiddordeb mewn presenoldeb yn yr ysgol, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, cyrff llywodraethu, rhieni/gofalwyr a phartïon eraill â diddordeb. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 10 cwestiwn a oedd yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu beidio drwy'r opsiynau ymateb 'Ydynt'/Oes'/'Ydw', 'Nac ydynt'/'Nac oes'/'Nac ydw', a 'Ddim yn siŵr', gydag un cwestiwn yn defnyddio graddfa o 1–5 o ran cytuno neu anghytuno. Mae crynodeb o'r cyfrifiadau meintiol hyn i'w gweld yn Atodiad 1.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar y canlynol:

- Pa mor ddefnyddiol ac ymarferol yw'r canllawiau
- Y ffordd y mae'r canllawiau'n nodi cyfrifoldebau ysgolion a llywodraethwyr, awdurdodau lleol, a rhieni a gofalwyr
- Yr egwyddorion a'r dulliau gweithredu y dylid eu mabwysiadu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb
- Diffiniad ystadegol o 'absenoldeb cyson'.

# 2. Dulliau ymchwil

Penodwyd cwmni ymchwil annibynnol Wavehill ym mis Mehefin 2023 i gynnal dadansoddiad trylwyr, systematig a gwrthrychol o ymatebion i’r ymgynghoriad a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## 2.1 Dull dadansoddol

Er mwyn dadansoddi'r safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr, cynhaliodd awduron yr adroddiad hwn ddadansoddiad thematig manwl o'r holl ymatebion testun rhydd a gynigwyd gan yr ymatebwyr. Mae'r dull hwn yn archwilio pob ymateb yn systematig ac yn amlygu’r themâu a'r materion sy’n cael eu codi. Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, roedd y tîm wedyn yn gallu ystyried pa mor gyffredin oedd barn a safbwyntiau penodol.

Gwnaed y gwaith dadansoddi mewn dau gam gwahanol. Roedd y cam cyntaf yn cynnwys datblygu fframwaith thematig a oedd yn darparu strwythur i ddal y materion a'r themâu a godwyd gan ymatebwyr o fewn ac ar draws yr holl ymatebion ansoddol. Mae'r fframwaith thematig yn bwysig oherwydd mae'n nodi'r ystod o faterion a themâu a amlygwyd gan yr ymatebwyr. Yn ail, er mwyn canfod pa mor arwyddocaol yw pob mater a safbwynt, dadansoddwyd a mapiwyd pob ymateb yn erbyn y fframwaith. Roedd hyn yn galluogi i'r dadansoddiad ganfod pa mor gyffredin yw safbwyntiau yn yr ymatebion i’r cwestiynau ymgynghori, gan gynnwys meysydd o gonsensws neu anghytundeb, ynghyd â’r graddau y mae’r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiadau allweddol ar ganllawiau 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi'.

Bu'r tîm ymchwil yn adolygu ac yn codio ymatebion a dderbyniwyd ar draws gwahanol fformatau, gan gynnwys y ffurflen ymgynghori, ac ymatebion anstrwythuredig a gyflwynwyd drwy e-bost. Yn dilyn hyn, edrychwyd ar ba mor gyffredin yw barn neu safbwyntiau penodol ar draws ymatebion i gwestiynau unigol, gan nodi, lle bo hynny'n bosibl, batrymau mewn ymatebion o blith grwpiau penodol o randdeiliaid (e.e. ymatebwyr sy’n unigolion neu’n sefydliadau). Roedd hyn yn galluogi dadansoddi’r ymatebion yn fanylach er mwyn ymchwilio i rai materion neu flaenoriaethau penodol.

## 2.2 Terminoleg

Er bod y tîm ymchwil wedi dadansoddi cwestiynau agored yn feintiol, i gynorthwyo'r darllenydd caiff terminoleg ddisgrifiadol ei defnyddio pan fo hyn yn helpu i egluro a deall y safbwyntiau a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad. Ceir manylion isod am sut y caiff y termau hyn eu diffinio:

- **Ychydig** – llai na 10 ymateb
- **Llond llaw** – pump neu lai o ymatebion
- **Mwyafrif** – y gyfran fwyaf o safbwyntiau tebyg a fynegwyd
- **Nifer** – mwy na dau ymateb ond nid llawer
- **Rhai** – yn cael ei ddefnyddio i esbonio neu gyflwyno mater neu thema ond heb nodi nifer na rhif.

## 2.3 Cyfyngiadau

Mae yna nifer o gyfyngiadau yn ymwneud â'r dadansoddiad hwn sy'n bwysig i'w nodi. Nid yw'r ymatebwyr a gyfrannodd eu barn a'u safbwyntiau o reidrwydd yn gynrychioliadol o'r holl safbwyntiau yng Nghymru. Mae'r tebygolrwydd uchel o hunan-ddethol a'r nifer cymharol fach o ymatebion yn cynyddu'r posibilrwydd bod gan y rhai a ymatebodd farn a safbwyntiau gwahanol i'r hyn a geir ymhlith pobl a chymunedau ledled Cymru yn ehangach.

Roedd yr ymatebion yn amrywio o ran hyd a manylder, a allai fod yn rhannol oherwydd natur eang y cwestiynau, ac am i'r ymatebwyr roi graddau amrywiol o bwys ar wahanol agweddau ar y canllawiau. Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn, ac nid oedd bob amser yn bosibl pennu eu safbwynt llawn o'r wybodaeth a ddarparwyd.

Felly, rydym wedi ceisio cyfleu cydbwysedd barn yn ansoddol. Dim ond lle mae patrymau clir yn dod i'r amlwg y gwnaethom ddatganiadau cyffredin, fel pan fo themâu neu deimladau wedi'u hamlygu'n eang ymhlith ymatebwyr, neu os ydynt i'w gweld yn ymylol gan ychydig yn unig. Yn hyn o beth, mae termau ansoddol yn arwydd o farn ar sail y rhai a ymatebodd yn unig. Felly, ni ddylid cymryd yn ganiataol bod datganiadau ynghylch cyffredinrwydd yn ymwneud yn rhifiadol â chyfanswm y bobl a'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad, nac i'r boblogaeth ehangach.

O ystyried y cyfyngiadau hyn, y nod oedd cyfleu'n effeithiol ac yn gywir ddealltwriaeth o'r ystod o themâu a materion allweddol a godwyd gan ymatebwyr, yn ogystal â'r rhesymau dros fod â safbwyntiau penodol. Mae gwybodaeth o'r fath yn cynnwys meysydd posibl o gytundeb ac anghytundeb rhwng y gwahanol grwpiau o ymatebwyr.

Gyda'i gilydd, felly, dylid ystyried bod y dadansoddiad hwn yn rhoi syniad o rai barnau a safbwyntiau sydd gan bobl, cymunedau a sefydliadau mewn perthynas â'r canllawiau presenoldeb drafft, yn hytrach na'i fod yn rhoi cyfrif diffiniol o farn.

## 2.4 Ymatebion

Rhwng 5 Mehefin a 20 Gorffennaf 2023, derbyniodd yr ymgynghoriad 98 o ymatebion. Nodwyd bod tri ymateb yn ddyblygiadau ac, o'r herwydd, maent wedi'u heithrio o'r dadansoddiad canlynol. Cyflwynodd nifer o ymatebwyr ymatebion yn Gymraeg ac yn Saesneg, gydag un yn gwneud hynny fel dau ymateb ar wahân (sydd wedi eu trin fel un ymateb). **Mae hyn yn gadael cyfanswm terfynol o 94 o ymatebion at ddibenion dadansoddol.**

Cafwyd ymatebion gan amrywiaeth o unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb yn y canllawiau presenoldeb drafft. Derbyniwyd o 54 o ymatebion (57 y cant) gan sefydliadau a 22 (23 y cant) gan unigolion, ac roedd nid oedd yr ymatebydd yn hysbys yn achos 18 o ymatebwyr. Mae'r tabl isod yn dangos y mathau o ymatebwyr sefydliadol. Mae rhestr o'r ymatebwyr sefydliadol i'w gweld yn Atodiad 3. Derbyniwyd 89 o ymatebion (95 y cant) yn Saesneg a phump (pump y cant) yn Gymraeg.

Tabl 2.1: Grwpiau o ymatebwyr sefydliadol

| Math o ymatebydd | Nifer |
|---|---:|
| Awdurdod lleol | 16 |
| Ysgol neu lywodraethwr | 9 |
| Cymdeithas neu undeb | 9 |
| Elusen neu'r trydydd sector | 8 |
| Corff hyd braich y Llywodraeth | 4 |
| Gwasanaeth Lles Addysg neu Wasanaeth Ieuenctid | 3 |
| Y GIG neu fwrdd iechyd prifysgol | 1 |
| Arall | 2 |

## 2.5 Llywio'r ffordd drwy'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r themâu a'r safbwyntiau allweddol a godwyd ar draws ymatebion i'r ymgynghoriad, o ymatebion i'r arolwg a gafwyd drwy'r ffurflen ymgynghori ac o ymatebion drwy e-bost (nad oeddent yn dilyn strwythur yr ymgynghoriad). Yn hytrach, mae wedi'i strwythuro yn erbyn y cwestiynau ymgynghori, ac mae copi ohonynt wedi'i ddarparu yn Atodiad 2.

Yn amodol ar ddewis ymatebwyr yr arolwg ynghylch cyhoeddi, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio dyfyniadau o'r ymatebion i ddangos themâu, syniadau neu faterion penodol a godwyd. Mae'r rhain naill ai'n cael eu priodoli'n uniongyrchol i'r ymatebydd neu eu priodoli'n ddienw fel ymateb gan unigolyn neu ymateb sefydliadol.

# 3. Canfyddiadau


Mae'r adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn cyflwyno ymatebion i bob cwestiwn, gan bwyso yn gyntaf ar yr ymatebion i'r opsiynau ymateb caeedig. Yna ceir esboniad ynghylch unrhyw safbwyntiau pellach sydd wedi'u cynnig yn yr ymatebion testun rhydd.

## 3.1 Pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol

Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch a yw'r canllawiau'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol ac ymarferol addas i arweinwyr, athrawon ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol i alluogi ysgolion a chyrff llywodraethu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr (Cwestiwn 1).

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (62 y cant) yn cytuno â'r datganiad hwn, gyda 21 y cant yn anghytuno a 15 y cant yn nodi nad oeddent yn siŵr. Mae nifer o ffactorau a allai olygu bod ymatebwyr yn ansicr, gan gynnwys y gallai adlewyrchu'r ystod o bobl sy'n gwneud sylwadau (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol yn y sector, gweithwyr proffesiynol y tu allan i'r sector, ac aelodau'r cyhoedd).

Ffigur 3.1: A yw'r canllawiau'n rhoi gwybodaeth addas, ddefnyddiol ac ymarferol i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr?




Ffynhonnell: Ymgynghoriad 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi'

Mae dadansoddiad o fathau o ymatebwyr yn awgrymu y gallai ymatebwyr sefydliadol fod yn fwy cadarnhaol nag ymatebwyr unigol bod y canllawiau'n cynnig gwybodaeth ddefnyddiol ac ymarferol, gyda 71 y cant o sefydliadau’n cytuno â'r datganiad hwn o gymharu â dim ond 38 y cant o unigolion.

---

‘Mae'n ymddangos eu bod yn cynnig gwybodaeth gynhwysfawr, ymarferol i ystod eang o bobl er mwyn galluogi ysgolion i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb mewn amrywiaeth eang o ffyrdd.’ (**Ymateb gan unigolyn**)

‘Canllawiau clir, wedi'u cyflwyno'n dda ac o dan benawdau perthnasol.’ (**Llywodraethwr Ysgol**)

---

Pan oedd ymatebwyr yn ymhelaethu ar eu rheswm dros gytuno, nododd rhai ymatebion fod y canllawiau'n drylwyr neu'n gynhwysfawr, ac roeddent yn gadarnhaol ynghylch y graddau y mae’r canllawiau wedi’u rhoi gyda’i gilydd mewn un ddogfen.

---

‘Mae'r canllawiau'n gyfannol eu natur ac yn ymdrin yn fanwl ag ystod o faterion sy'n ymwneud â phresenoldeb. Mae'n gadarnhaol gweld bod y drafft yn cynnwys yr holl randdeiliaid [...] a all ddylanwadu a chynorthwyo i wella presenoldeb.’ (**Cyngor Bro Morgannwg**)

‘Mae'r adborth a gafwyd gan ystod o wasanaethau cymorth addysg [yr awdurdod lleol] i'r ddogfen yn cadarnhau y byddai'r ddogfen yn ychwanegiad cadarnhaol at y canllawiau presennol [Llywodraeth Cymru] sydd ar gael.’ (**Cyngor Sir – dienw**)

‘Mae'r ddogfen ganllaw yn rhestr ddefnyddiol o ganllawiau ac arferion gorau presennol i ysgolion ac eraill, ac mae'n ddefnyddiol bod yr holl ganllawiau wedi'u hailddatgan mewn un lle er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd.’ (**Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru**)

---

Fodd bynnag, nododd llond llaw o ymatebwyr sefydliadol nad yw'r canllawiau'n darparu unrhyw wybodaeth i ysgolion na chyrff llywodraethu y tu hwnt i'r hyn a oedd eisoes yn gyhoeddus ac yn atgyfnerthu gwybodaeth a geir yn Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan.

---

‘Byddai adolygiad o ddogfennau presennol fel y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan wedi diwallu anghenion presennol yn well.’ (**Awdurdod Lleol – dienw**)

---

Roedd llawer o ymatebion yn rhoi sylwadau ynghylch gweithredu'r canllawiau, yn ogystal â'r angen am arweiniad ymarferol neu strategaethau i hybu lefelau ymgysylltu neu bresenoldeb disgyblion. Er bod ychydig o ymatebion yn nodi bod yr astudiaethau achos sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau drafft yn ddefnyddiol, roedd rhai yn awyddus i weld enghreifftiau cadarnhaol ychwanegol er mwyn hybu presenoldeb.

---

'Er ein bod yn credu bod y themâu sy'n ymwneud â chysylltedd ac ymgysylltiad rhieni a disgyblion yn yr ysgol yn allweddol, at ei gilydd nid ydym yn teimlo eu bod yn mynd yn ddigon pell i ddarparu strategaethau ynghylch sut y dylid mynd i'r afael â hyn.' (**Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg Conwy**)

'Mae'r dull gweithredu yn addas, ond gallai fod mwy o offer ymarferol i gynorthwyo [awdurdodau lleol] ac ysgolion wrth ymgysylltu â phlant, pobl ifanc, a'u teuluoedd.' (**Cyngor Sir Powys**)

---

Roedd thema allweddol gan ymatebwyr yn ymwneud â gweithredu'r canllawiau, ac roedd llawer o ymatebion yn atgyfnerthu pwysigrwydd dull gweithredu amlasiantaethol, ac yn mynegi pryderon bod y canllawiau yn rhoi baich ychwanegol ar ysgolion. Roeddent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cyllid ac adnoddau digonol i ysgolion a gwasanaethau cymorth i gyflawni eu priod gyfrifoldebau o ran hybu lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr. Roedd yr ymatebion hyn mewn llawer o achosion yn gadarnhaol am gynnwys y canllawiau, gan ddweud eu bod yn ddefnyddiol ac ymarferol. Fodd bynnag, roeddent yn nodi bod y canllawiau'n tybio y bydd y gwasanaethau o amgylch ysgolion yn gweithredu yn ôl y bwriad, ond mewn gwirionedd, efallai na fydd hyn yn wir oherwydd heriau o ran adnoddau a chapasiti.

---

'Unwaith eto, caiff y pwyslais ei roi ar ysgolion i arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â materion sydd mewn llawer o achosion yn ymwneud ag iechyd meddwl, lles teuluol, a gofal iechyd [...]. Mae bwlch mawr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â theuluoedd a dysgwyr; nid cynhyrchu dogfen arall sy'n dweud wrth ysgolion am wneud mwy yw'r ateb.' (**Ymateb gan unigolyn**)

'Mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau lefelau cyrhaeddiad priodol yn perthyn i ddull amlasiantaethol. Ni ellir disgwyl ac ni ddylid disgwyl i unrhyw ysgol, waeth pa mor llwyddiannus yw yn y maes hwn, allu newid patrymau presenoldeb, sy'n aml wedi'u gwreiddio, ar eu pennau eu hunain. Mewn sefyllfa lle nad yw asiantaethau eraill yn cael eu hariannu a'u cynorthwyo'n ddigonol i gyflawni'r tasgau sydd wedi'u priodoli iddynt, yn bryderus mae'r baich o geisio datrys yr holl faterion hyn yn gynyddol ar ysgolion.' (**Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru**)

---

Mynegwyd pryderon mewn ymatebion ynghylch iechyd meddwl a lles, yn ogystal ag effeithiau parhaus COVID-19 ar iechyd cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd. Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau ar yr amseroedd aros ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'r effaith y gallai'r rhain ei chael ar bresenoldeb tra bod y bobl ifanc yn aros am gymorth. Cafodd yr honiad bod "presenoldeb da hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant" ei herio gan ambell ymatebydd, gan nodi y gallai rhai plant a phobl ifanc brofi llesiant gwael oherwydd ffactorau amrywiol yn ymwneud â'u presenoldeb.

‘Nid yw’r canllawiau'n rhoi cymaint o gyfarwyddyd am gyfrifoldebau'r system gofal iechyd. Er bod cyfeiriad yn cael ei wneud at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS) ac ati, gallai’r iaith ynghylch cyfrifoldebau'r system gofal iechyd i ddarparu cymorth gael ei chryfhau.’ (**Estyn**)

‘Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol yn unig os yw'r gwasanaethau o amgylch ysgolion yn gweithredu yn ôl y bwriad yn y ddogfen hon, ac yn aml nid ydynt yn gwneud hynny. Rwy'n cytuno â'r wybodaeth ymarferol mewn egwyddor, er bod angen ymchwilio ymhellach o ran lle mae'r 'baglau' go iawn yn y system, h.y. mae gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS) amser aros o tua 26 wythnos.’ (**Mind Casnewydd**)

Nododd rhai ymatebwyr nad yw'r canllawiau'n ymdrin â cholegau addysg bellach, sydd hefyd yn darparu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc hyd at yr oedran ysgol statudol. Dywedodd un ymatebydd ei bod yn ofynnol i golegau, fel ysgolion, ddarparu data ar gwblhau, cyrhaeddiad, presenoldeb a chyfraddau cadw ac eto nid yw'r drafft hwn yn cynnwys unrhyw fanylion na chanllawiau penodol ar y patrymau presenoldeb y gallent eu profi ymhlith eu dysgwyr.

Awgrymodd rhai ymatebion sefydliadol y gallai'r canllawiau roi mwy o sylw i blant sy'n cael eu haddysgu gartref, gan ystyried eu cysylltiadau ag ysgolion a/neu gyfleusterau mewn cymuned, a'r potensial i ddatblygu i hybu lefelau ymgysylltu a phresenoldeb yn yr ysgol yn y dyfodol.

Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd y gallai'r canllawiau gyd-fynd yn well â'r Cwricwlwm i Gymru newydd drwy'r cysyniad o ‘gynefin’ — y term a ddiffinnir gan y Cwricwlwm i Gymru fel ‘Y lle rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, lle mae’r bobl a’r dirwedd o’n cwmpas yn gyfarwydd, a’r golygfeydd a’r synau’n gysurol o adnabyddadwy’. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at fylchau tybiedig yn y canllawiau o ran addysg awyr agored fel ffordd i hybu lefelau ymgysylltu.

‘Rydym yn ystyried bod y canllawiau'n ddefnyddiol o ran hybu ethos ysgol gyfan dau ddimensiwn, ond mae’r ffaith nad yw elfen awyr agored bywyd yr ysgol, mannau naturiol yn benodol, wedi’i chynnwys, yn tanseilio ymdrechion i ddatblygu a gwreiddio arferion gorau wrth gynorthwyo dysgwyr i berthyn, ymgysylltu a chyfranogi’n llawn.’ (**Cyfoeth Naturiol Cymru**)

## 3.2 Cyfrifoldebau rhanddeiliaid

Gofynnwyd cwestiynau penodol ynghylch a yw'r canllawiau'n nodi'n glir gyfrifoldebau cyfreithiol **ysgolion a llywodraethwyr** a'r **awdurdod lleol** perthnasol ac a ydynt yn darparu digon o wybodaeth i **rieni a gofalwyr** i ddeall eu cyfrifoldebau cyfreithiol dros sicrhau bod eu plant o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg amser llawn. Cynigiodd yr ymatebwyr ystod o safbwyntiau mewn ymateb i gwestiynau testun agored; rhoddodd rhai ddatganiadau byr yn mynegi cytundeb neu anghytundeb cyffredinol, a rhoddodd eraill ragor o fanylion sy’n cael eu trafod isod.

### 3.2.1 Cyfrifoldebau cyfreithiol ysgolion a llywodraethwyr

Mae'r ymatebion yn dangos graddau amrywiol o gefnogaeth i'r graddau y mae'r canllawiau'n nodi'n glir gyfrifoldebau cyfreithiol ysgolion a llywodraethwyr (Cwestiwn 2). Cytunodd 79 y cant o'r ymatebwyr fod y canllawiau yn nodi cyfrifoldebau cyfreithiol ysgolion a llywodraethwyr yn glir, tra bod 10 y cant yn anghytuno ac nid oedd 4 y cant yn siŵr. Yn gyffredinol, rhoddwyd awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn ymwneud ag eglurder, hyfforddiant ac adnoddau.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn hyderus bod y canllawiau yn nodi'n glir gyfrifoldebau ysgolion a llywodraethwyr, gan nodi ei fod yn ailadrodd y gofynion cyfreithiol i ysgolion gyhoeddi eu strategaethau presenoldeb. Roedd yr ymatebion hyn yn nodi bod y canllawiau'n cynnwys gwybodaeth fanwl am gyfrifoldebau cyrff llywodraethu am bresenoldeb dysgwyr, gyda chyfeiriadau at reoliadau statudol.

Nododd rhai ymatebwyr er bod y ddyletswydd ar ysgolion i gyhoeddi eu strategaeth bresenoldeb yn glir, nid oedd y ddyletswydd hon yn cael ei chymhwyso'n gyson. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch y diffyg eglurder o ran y canlyniadau os yw ysgolion yn methu â chyflawni eu cyfrifoldebau ar bresenoldeb, neu os yw cofrestrau presenoldeb wedi’u llenwi’n anghywir er mwyn cyflwyno gwell darlun o bresenoldeb.

‘Nid yw'n glir chwaith bwy sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth a sicrhau bod pob ysgol yn cydymffurfio â pholisi presenoldeb cadarn a bod y strategaeth yn cael ei chyhoeddi.’ (**Plant yng Nghymru**)

Nododd naw o'r ymatebwyr eu bod yn athro, llywodraethwr, neu'n aelod o staff mewn ysgol. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr hyn 'Ydynt' i'r cwestiwn a yw'r canllawiau'n nodi cyfrifoldebau cyfreithiol ysgolion a llywodraethwyr. Fe wnaeth un ymatebydd gynnig sylw eu bod yn ymdrechu i wella ond "yn troedio llwybr cul i osgoi bod rhieni, yn syml, yn dewis addysgu eu plant gartref". Roedd ymatebwyr eraill yn ailadrodd yr angen am gymorth amlasiantaethol gan gynnig sylwadau ar adrannau penodol o'r canllawiau.

'Fel ysgol sy'n gweithio'n galed i wella presenoldeb, nid ydym yn teimlo bod llawer mwy y gallwn ei wneud. Mae arnom angen i asiantaethau eraill weithredu.' (**Ysgol**)

Cyfeiriodd nifer o ymatebion at yr angen am hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau statudol i sicrhau bod ganddynt wybodaeth ddigonol i allu herio prosesau, penderfyniadau a chanlyniadau a chyfrannu at 'ddull ysgol gyfan' (fel a nodir yn y canllawiau). Fodd bynnag, nododd rhai undebau ei bod yn hanfodol bod amser yn cael ei neilltuo i ddiwallu anghenion hyfforddi a datblygiad proffesiynol llywodraethwyr, staff addysgu, a staff ysgol yn ehangach.

Awgrymwyd na ddylid gosod galwadau ychwanegol ar amser y gweithlu addysgol heb gynnal asesiad o'r effaith ar lwyth gwaith a sefydlu mesurau lliniaru ar gyfer pwysau llwyth gwaith ychwanegol ar athrawon a staff eraill mewn ysgolion.

'Dylai [Llywodraethwyr] dderbyn digon o hyfforddiant gan eu hawdurdod lleol i'w galluogi i gyfrannu at strategaeth gyffredinol yr ysgol ar gyfer gwella presenoldeb a theimlo'n hyderus i herio lle nad oes digon o welliant.' (**Gwasanaeth Ieuenctid Conwy**)

### 3.2.2 Cyfrifoldebau cyfreithiol awdurdodau lleol

Cytunodd ychydig dros ddwy ran o dair (69 y cant) o'r ymatebwyr fod y canllawiau yn nodi cyfrifoldebau awdurdodau lleol yn glir (Cwestiwn 3).Roedd tua un o bob pump o'r ymatebwyr yn anghytuno (18 y cant) a dywedodd wyth y cant nad oeddent yn siŵr.

Nododd ymateb gan Wasanaeth Lles Addysg awdurdod lleol fod eu cyfrifoldebau cyfreithiol wedi'u sefydlu'n gadarn a'u bod yn gyfarwydd â hwy. Fodd bynnag, roeddent yn mynegi chwilfrydedd ynghylch a fyddai asiantaethau nad ydynt yn gyfarwydd â'r protocol yn deall y broses yn llawn fel y mae wedi'i nodi yn y canllawiau. Nododd Gwasanaeth Lles Addysg arall fod hon ymhlith rhannau cryfaf y canllawiau, gan nodi dealltwriaeth sylfaenol ond clir o'r cyd-destun cyfreithiol.

‘Mae rôl yr awdurdod lleol wedi'i sefydlu yn ôl y gyfraith (adran 436A o Ddeddf Addysg 1996), ond gall hyn fod yn ddull anfanwl iawn. Felly, rydym yn falch o weld canllawiau ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol a rhieni sy'n dangos pwysigrwydd darpariaeth ysgolion, data absenoldeb a phresenoldeb, a chofrestru i dderbyn addysg yn y cartref.’ (Undeb)

‘Mae'n hanfodol bod gan awdurdodau lleol adnoddau priodol i allu cyflawni'r swyddogaethau sy'n ofynnol ganddynt yn ôl y gyfraith neu y cânt eu hannog i’w cyflawni drwy arferion gorau.’ (Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru)

Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol yn cytuno bod y canllawiau yn nodi'r cyfrifoldebau yn glir. Fodd bynnag, dywedodd rhai y gellid gwneud gwelliannau o ran cyfeirio yn y canllawiau. At hynny, dywedodd un awdurdod lleol y gellid gwella'r canllawiau trwy gydbwyso naws gadarnhaol a chefnogol y canllawiau ag ymagwedd fwy eglur o fanylu ar ddulliau rheoli presenoldeb ac atebolrwydd cysylltiedig.

Roedd sawl ymatebydd yn argymell cynnwys atodiad neu dabl cryno yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol ochr yn ochr â rhieni, ysgolion a chyrff llywodraethu er mwyn bod yn eglur.

Awgrymodd rhai ymatebwyr ymgorffori canllawiau ar weithio ar draws awdurdodau lleol i gynorthwyo dysgwyr a theuluoedd ar draws ffiniau daearyddol. Mae hyn yn adleisio'r teimlad ar draws nifer o ymatebion sy'n pwysleisio bod angen cysondeb. Cyfeirir at yr angen am arweiniad ar sut y gall awdurdodau lleol nodi a monitro disgyblion anghofrestredig yn eu hardal yn effeithiol.

‘Byddai ychwanegu adran am weithio ar draws awdurdodau lleol yn cryfhau'r ddogfen ac yn rhoi arweiniad clir i awdurdodau lleol wrth weithio ar draws ffiniau daearyddol i gynorthwyo dysgwr a'i deulu.’ (Cyngor Sir Powys)

Mynegwyd pryderon mewn ymateb gan ysgol ynghylch yr amserlenni sydd i’w gweld yn y siart llif ar gyfer proses presenoldeb Gwasanaeth Lles Addysg, nad ydynt, o bosibl, yn rhoi digon o amser ar gyfer ymyriadau a chymorth effeithiol.

### 3.2.3 Cyfrifoldebau cyfreithiol rhieni a gofalwyr

Cymysg oedd yr ymatebion i'r cwestiwn ynghylch a yw'r canllawiau'n darparu digon o wybodaeth i rieni a gofalwyr ddeall eu cyfrifoldebau cyfreithiol dros sicrhau bod eu plant o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg amser llawn (Cwestiwn 6). Dyma'r cwestiwn a dderbyniodd y lefel isaf o gytundeb o blith yr holl gwestiynau, gyda 42 y cant yn unig o'r ymatebion yn cytuno eu bod yn gwneud hynny, 27 y cant yn anghytuno a 27 y cant arall yn nodi nad oeddent yn siŵr. Awgrymodd un ymatebydd sefydliadol y dylai'r canllawiau ystyried dyletswyddau cyfreithiol gofalwyr yn fanylach.

---

'Mae'r ddyletswydd gyfreithiol gyffredinol ar rieni [...] yn glir gyda'r cyfeiriadau at Ddeddf Addysg 1996. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau'n manylu ar y dyletswyddau cyfreithiol sydd gan ofalwyr, fel gofalwyr sy'n berthynas, gwarcheidwaid arbennig, neu ofalwyr maeth, o ran cynorthwyo plant yng nghyd-destun colli'r ysgol.'
(**Comisiynydd Plant Cymru**)

---

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn amlygu'r angen am fersiwn fwy hygyrch, cyfeillgar i rieni, a chryno, o'r canllawiau drafft, gyda phwyslais cryf ar sicrhau bod y canllawiau wedi'u targedu at y gynulleidfa fwyaf priodol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau drafft yn rhy hir, cymhleth neu dechnegol i fod yn ddefnyddiol i rieni, yn enwedig y rhai sydd â Saesneg fel ail iaith neu'r rhai a allai gael trafferth deall iaith a jargon cymhleth.

---

'Dogfen dechnegol ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol yw hon. Awgrymir bod dogfen(nau) ac ymgyrch gyfathrebu wedi'u hanelu mwy at rieni a phobl ifanc yn rhedeg ochr yn ochr â nodau'r canllawiau hyn.' (**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**)

'Nid oes adran uniongyrchol sy'n cyfeirio'r gynulleidfa darged hon at y wybodaeth hon, er ei bod wedi'i chynnwys.' (**Cyngor Sir – dienw**)

---

Nododd nifer o ymatebwyr hefyd, er bod y canllawiau'n darparu digon o wybodaeth i rieni ddeall eu cyfrifoldebau cyfreithiol, nid yw'r ddealltwriaeth hon yn unig yn cynorthwyo rhieni i roi'r canllawiau ar waith. Cynigiodd yr ymatebwyr amrywiaeth o safbwyntiau ar rôl ysgolion yn hyn o beth, gyda rhai'n nodi bod angen dull ysgol gyfan i sicrhau bod rhieni'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol, a mynegodd nifer amheuon ynghylch y baich anghymesur sydd ar athrawon i weithio gyda rhieni i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr.

---

'Mae'n rhoi'r wybodaeth, ond mae rhieni'n ymwybodol o'r maes hwn yn barod ac nid yw ymwybyddiaeth yn golygu gweithredu os nad oes mwy o sylwedd.'
(**Ymatebydd anhysbys**)

‘Mae'n angen i'r gwasanaethau cymorth ehangach gynorthwyo ysgolion ar y dasg hon, gan na all fod yn ddyletswydd ychwanegol sy'n gyfrifoldeb llwyr ar athrawon ac arweinwyr gweithgar ac ymroddedig [sydd â’r] brif swyddogaeth o ddarparu addysg i'r rhai yn yr ysgol.’ (**Undeb**)

---

Nododd ambell ymateb bod angen ymgyrch gyfathrebu i sicrhau bod ymwybyddiaeth rhieni yn cael ei throi'n ddealltwriaeth a gweithredoedd.

---

‘Er enghraifft, gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth am sut y gall cynnydd bach mewn presenoldeb wella canlyniadau i ddisgyblion, nid yn unig yn academaidd ond hefyd y canlyniadau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol i ddisgyblion. Byddai'n fuddiol i ymgyrch gyfathrebu redeg ochr yn ochr â lansio'r canllawiau hyn.’ (**Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg, Cyngor Sir Ceredigion**)

---

Nododd rhai ymatebion y dylai'r canllawiau gynnwys manylion am hawliau rhieni yn ogystal â chyfrifoldebau, yn enwedig mewn sefyllfaoedd o wrthdaro neu anghytundeb. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymatebion gan gynrychiolwyr ysgolion neu gyrff llywodraethu, sy'n pwysleisio mor fregus yw'r berthynas rhwng ysgolion a rhieni mewn rhai achosion.

---

‘Yn rhannol, er nad yw'n datgan beth all rhieni ei wneud os nad yw'r ysgol neu'r [awdurdod lleol] yn ysgwyddo ei chyfrifoldeb statudol. Nid yw rhieni'n cael eu gwerthfawrogi’n ddigonol yn y system ac yn aml nid oes ganddynt lawer o opsiynau i leisio eu barn.’ (**Mind Casnewydd**)

‘Dylai'r canllawiau gynnwys mwy o wybodaeth, a gwybodaeth fwy eglur, am hawliau rhieni a dysgwyr mewn perthynas â sancsiynau ac ymyriadau y gallent eu hwynebu. Mae'n bwysig bod y canllawiau'n cydnabod y gallai fod gwrthdaro ynghylch absenoldebau ysgol, a’i bod yn bwysig, wrth ystyried sancsiynau cosbol ac ymyriadau posibl yn erbyn rhieni, y dylai’r rhieni gael eu hysbysu’n llawn am eu hawliau a chael mynediad at eiriolaeth i sicrhau eu bod yn gallu gorfodi'r hawliau hyn mewn gwirionedd.’ (**Anabledd Dysgu Cymru**)

---

Mynegodd ychydig o ymatebion bryderon ynghylch perthynas yn dirywio rhwng rhieni ac ysgolion, lle teimlir bod gofyn i ysgolion yn aml lenwi'r bylchau a adawyd gan asiantaethau ehangach ac, felly, na allant fabwysiadu dull ymyriad cynnar mewn llawer o achosion. Gwnaed sylwadau penodol yn gofyn am eglurder ynghylch contractau rhianta yn y canllawiau, gan ddweud, er bod y canllawiau'n nodi bod y contractau hyn yn wirfoddol, y gall y posibilrwydd o 'ymyriadau' neu 'sancsiynau' os yw rhieni'n gwrthod llofnodi greu ymdeimlad o orfodaeth neu gywilydd.

‘Credwn fod yn rhaid mai uchelgais hanfodol y canllawiau hyn yw lleihau cywilydd i rieni, ffigurau rhieni, a phobl ifanc eu hunain. Ar draws y system iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc ac oedolion, gwelwn bobl sy’n llawn cywilydd ac mae hynny'n arwain at ddatgysylltu pellach a diffyg rheoli, sydd yn ei dro yn atgyfnerthu’n gynyddol y cylch rhwng y cenedlaethau o wrthgyhuddo, cywilydd a niwed.’ (**Platfform: dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol**)

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd darparu gwybodaeth gywir a chefnogol i annog ymgysylltiad ystyrlon â rhieni, lle mae termau fel 'cymorth' a 'chynllun cyfathrebu', yn hytrach na 'chontract', yn gwneud y broses yn llai brawychus i rieni a gofalwyr.

## 3.3 Ffactorau sy'n cyfrannu: y nifer mawr o resymau posibl dros absenoldeb

Rhoddodd yr ymatebwyr ystod o ymatebion i'r cwestiwn a oes ymdriniaeth ddigonol yn y canllawiau o’r nifer mawr o resymau posibl dros absenoldeb (Cwestiwn 4). Cytunodd dros hanner yr ymatebwyr (58 y cant) fod yna ymdriniaeth ddigonol, gyda thros chwarter (27 y cant) yn dweud na cheir ymdriniaeth ddigonol o’r ffactorau sy'n cyfrannu, ac nid oedd 13 y cant arall yn siŵr. Gwnaeth 57 o'r ymatebwyr ymhelaethu ar eu hymateb.

At ei gilydd, roedd yr ymatebion yn gyffredinol gadarnhaol bod y canllawiau yn cydnabod bod y ffactorau a allai gyfrannu at absenoldeb o'r ysgol yn gymhleth ac yn aml yn gydgysylltiedig. Roedd derbyniad da i’r rhestr o ffactorau gan oddeutu chwarter yr ymatebion sefydliadol (28 y cant neu 15/54 o’r ymatebion sefydliadol).

‘Mae'r rhestr o ffactorau sy’n cyfrannu a’r rhesymau yn ddefnyddiol iawn i gynorthwyo ysgolion a rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth am resymau dros absenoldeb a ffurfio eu hymateb i'r amgylchiadau unigol.’ (**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**)

‘Ceir rhestr gynhwysfawr sydd wedi ei gosod allan yn glir.’ (**Undeb**)

Mynegwyd bod angen ystyried y mathau o ysgolion mewn perthynas â’r ffactorau sy'n cyfrannu at absenoldeb ysgol, gan nodi bod y ffactorau sy'n gyrru absenoldeb ymhlith disgyblion iau yn sylweddol wahanol i'r rhai yn yr ysgol uwchradd. Yn yr un modd, mae cyfnodau pontio rhwng ysgolion, yn enwedig o ysgol gynradd i ysgol uwchradd neu pan fo teulu’n symud, yn cael eu hystyried yn gyfnodau tyngedfennol pan allai materion godi ynghylch presenoldeb, a gellid eu hystyried ymhellach yn y canllawiau.

Awgrymodd ymatebwyr eraill ystod o ffactorau yr oeddent yn teimlo eu bod heb eu cynnwys yn y rhestr hon, neu y teimlent y gellid eu pwysleisio ymhellach yn y canllawiau. Yn benodol, amlygwyd bod iechyd meddwl disgyblion a rhieni / rhai sy'n rhoi gofal yn ffactor arwyddocaol sy'n gynyddol achosi absenoldeb ymhlith pobl ifanc. Cyfeiriodd ystod o ymatebwyr at absenoldeb cyson yn sgil gorbryder, a chyfeiriwyd at ffactorau yn cynnwys effaith y cyfryngau cymdeithasol, pwysau perfformiad academaidd, pryder hinsawdd, ac effaith barhaus pandemig COVID-19 fel agweddau allweddol sy'n ysgogi gorbryder ymhlith pobl ifanc. Nododd rhai ymatebwyr sefydliadol fod agweddau tuag at bresenoldeb ysgol wedi newid ymhlith rhai rhieni ar ôl cau ysgolion yn ystod pandemig COVID-19.

---

'Ni ellir tanbrisio bod newid mewn meddylfryd ynghylch yr angen i ddychwelyd i addysg gyson, amser llawn, ar y safle, mewn ysgolion — mae thema 'mae pob diwrnod yn bwysig' wedi ei cholli/gwanhau.' (**Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg Conwy**)

---

Yn yr un modd, cyfeiriodd rhai ymatebion at effaith iechyd meddwl rhieni ar bresenoldeb person ifanc. Yn eu hymateb i'r ymgynghoriad, rhannodd rhai rhieni eu profiadau o fethu â dod â'u plant i'r ysgol oherwydd eu hanghenion iechyd meddwl eu hunain, gan arwain at effaith ganlyniadol ar bresenoldeb eu plant. Roedd ymatebion gan ysgolion yn amlygu'r pryder hwn hefyd, gydag un yn nodi bod yr agwedd hon yn codi materion yn ymwneud ag amddiffyn a diogelu plant. Nododd rhai ymatebwyr fod angen ystyriaeth benodol ar blant â chyfrifoldebau rhoi gofal neu blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, o ystyried y gallai'r ffactorau sy'n effeithio ar eu presenoldeb fod yn wahanol i rai plant eraill.

Nododd ychydig o ymatebwyr sefydliadol fod poen mislif difrifol yn ffactor arwyddocaol sy'n aml yn cael ei anwybyddu gan arwain at absenoldeb o'r ysgol, ac nad yw'n ffactor sy'n cael ei gwmpasu'n ddigonol gan ffactor 'salwch corfforol hirdymor'. Am fod poen mislif difrifol fel arfer yn cael ei normaleiddio, awgrymwyd nad yw chwaith, yn aml iawn, yn cael ei reoli. Argymhellodd yr ymatebwyr y dylid cydnabod y mater hwn yn y rhesymau posibl dros absenoldeb, o ystyried ei fod yn effeithio ar nifer sylweddol o ddysgwyr a bod ei reoli'n effeithiol yn cyd-fynd â'r nod o wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr sydd â phatrymau o ymddieithrio neu absenoldeb rheolaidd.

---

'O ystyried mynychder, amlder absenoldebau, ac effaith negyddol gynyddol poen mislif difrifol, dylai arweinwyr gydnabod bod absenoldeb sy'n gysylltiedig â mislif yn un o brif achosion absenoliaeth ysgol.' (**Canolfan Ymchwil Seicogymdeithasol Ffrwythlondeb ac Iechyd Atgenhedlol Cymru, Ysgol Seicoleg, Prifysgol Caerdydd**)

---

Nododd ychydig o ymatebwyr sefydliadol fod y rhan fwyaf o'r ffactorau sydd wedi'u rhestru yn y canllawiau fel ffactorau sy'n cyfrannu yn ymwneud â'r plant eu hunain, yn hytrach na ffactorau'n ymwneud â'r ysgol neu allu'r system addysgol i ddiwallu anghenion y plant. Er enghraifft, er yr ystyriwyd ei fod yn gadarnhaol bod anabledd wedi'i gynnwys yn y rhestr o ffactorau sy'n cyfrannu, gwnaeth sawl ymatebydd sylwadau ar anghenion cymorth ychwanegol pobl ifanc ag anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol, lle caiff ei ystyried mai gallu'r ysgol a gwasanaethau ehangach yw'r ffactor sy'n pennu a yw hyn yn effeithio ar lefelau ymgysylltu a phresenoldeb.

Nododd sawl ymateb fod anfantais economaidd-gymdeithasol yn ffactor sy'n cyfrannu at bresenoldeb. Nodwyd bod tlodi yn rhwystr allweddol i deuluoedd, gan effeithio ar i ba raddau y gall rhieni ymwneud yn briodol ag addysg eu plentyn. Mae heriau penodol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y cynnydd cyffredinol mewn costau byw, y graddau y mae cludiant fforddiadwy ar gael, cost gwisg ysgol a chinio ysgol, a thlodi mislif. Nododd un ymatebydd y gwelwyd bod cynlluniau 'brecwast ysgol am ddim' a gweithgareddau ar ôl ysgol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at wella cyfraddau presenoldeb mewn rhai lleoliadau addysgol.

Cyfeiriodd chwe ymatebydd at rwystrau trafnidiaeth a heriau cysylltiedig, gan gynnwys cost, argaeledd a hygyrchedd, yn gosod rhwystrau i blant o ran mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Dywedwyd bod ysgolion mewn ardaloedd gwledig yn wynebu mwy o heriau yn y maes hwn, gan y gallai plant wynebu taith hirach i'r ysgol, efallai eu bod yn cael eu gwasanaethu'n wael gan drafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy, a gallent wynebu heriau'n ymwneud â thywydd garw. Yn yr un modd, gall ysgolion cynradd, teuluoedd â nifer o blant, a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol wynebu rhwystrau trafnidiaeth ychwanegol rhag mynychu neu ymgysylltu â'r ysgol, lle y gallai fod angen i'r disgyblion hyn gael cymorth rhieni i gyrraedd yr ysgol. Cyfeiriodd un ymatebydd at y rhwystrau sydd wedi'u nodi yn y Canllaw Pris Tlodi Disgyblion i ysgolion.

---

'Rydym yn awgrymu cynnwys tlodi neu anfantais economaidd gymdeithasol yn fwy amlwg. Mae hon yn broblem ers tro, ond cafodd ei gwaethygu'n benodol gan y pandemig a'r argyfwng costau byw.' (Samaritans UK)

'Mae cludiant i'r ysgol ac o'r ysgol (hyd yn oed pan mai llwybr cerdded diogel wedi'i oleuo'n dda ydyw) yn cael ei anwybyddu'n llwyr yn eich canllawiau.' (Ysgol)

---

Awgrymodd y Coleg Brenhinol Therapi Iaith a Lleferydd y dylid cynnwys anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu fel ffactor sy'n rhoi dysgwyr mewn perygl o golli ysgol, ac sy'n cynnwys rhwystrau penodol a defnyddio amserlen wahanol bosibl. Mae'r ymateb hwn yn awgrymu mai anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yw'r math mwyaf cyffredin o anghenion dysgu ychwanegol, ac mae cydberthynas gref rhwng tlodi ac oedi mewn datblygiad iaith, ac y dylai'r canllawiau fynd i'r afael â hwy yn benodol.

Nododd nifer o ymatebwyr effaith teuluoedd yn cymryd gwyliau yn ystod y tymor, gyda gwahanol safbwyntiau'n cael eu cynnig mewn ymatebion i'r ymgynghoriad. Cyfeiriodd rhai at gost gwyliau y tu allan i'r tymor, lle na all llawer o deuluoedd fforddio cymryd gwyliau y tu allan i'r tymor, a allai gael yr effaith anuniongyrchol o gosbi teuluoedd â gallu economaidd is. Codwyd cwestiwn am degwch yn yr achos hwn, gan nodi bod y premiwm ariannol yn ystod gwyliau'r haf yn effeithio llai ar blant y tu allan i ddarpariaeth ysgol wladol sydd â chyfnodau estynedig o wyliau. Nododd rhai athrawon a ymatebodd i'r ymgynghoriad fod teuluoedd â rhieni mewn swyddi a ystyrir yn 'weithwyr allweddol' yn ystod y pandemig, yn enwedig athrawon neu weithwyr iechyd, hefyd yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y mater hwn.

Er bod y canllawiau'n ymdrin â llawer o ffactorau sy'n cyfrannu, awgrymodd ymatebwyr y dylid bod yn agored i'w haddasu, wrth i well dealltwriaeth o'r ffactorau presennol ddod yn amlwg. Roedd rhai ymatebwyr yn annog hyblygrwydd o ran deall a mynd i'r afael ag absenoliaeth, yn ogystal â'r angen i ystyried y cyd-destun lleol (yn hytrach nag ymateb un maint i bawb i fynd i'r afael ag absenoliaeth).

## 3.4 Cynnwys pobl ifanc â nodweddion gwarchodedig

Rhoddodd yr ymatebwyr ystod o ymatebion i'r cwestiwn a yw dysgwyr â nodweddion gwarchodedig wedi'u cynnwys yn y canllawiau (Cwestiwn 5). Roedd dros hanner yr ymatebwyr (57 y cant) yn cytuno bod dysgwyr â nodweddion gwarchodedig wedi'u cynnwys yn y canllawiau, tra bod tua un o bob pump o'r ymatebwyr (21 y cant) yn anghytuno ac un o bob pump (20 y cant) yn dweud nad oeddent yn siŵr.

Roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan bod dysgwyr â nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn y canllawiau. Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol i'r canllawiau gyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a gwneud y rhestr o nodweddion gwarchodedig yn fwy eglur. Er y nodwyd bod bwlio wedi'i gynnwys yn y canllawiau drafft, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid rhoi mwy o bwyslais ar fynd i'r afael â dysgwyr â nodweddion gwarchodedig oherwydd y rhwystrau strwythurol y gallent fod yn eu hwynebu wrth ymgysylltu ag addysg, nid yn unig fel rhai a allai fod yn dioddef o fwlio.

> ‘Credaf y dylai'r canllawiau gyfeirio at y ffaith bod y ddemograffeg sy’n cael ei rhestru fan yma yn fwy tebygol o ddioddef gwahaniaethu ac anghydraddoldebau strwythurol. Byddai hyn yn rhoi rhywfaint o gyd-destun y tu hwnt i ddisgrifio ethnigrwydd yn unig, er enghraifft, fel 'ffactor'.’ (**Comisiynydd Plant Cymru**)

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at nifer o wahanol grwpiau o ddysgwyr yr oeddent yn teimlo y gellid cryfhau’r canllawiau ar eu cyfer neu eu gwneud yn fwy eglur. Soniodd nifer o ymatebwyr am fyfyrwyr niwrowahanol a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol fel rhai sy'n wynebu ystod o heriau y dylid rhoi ystyriaeth benodol iddynt ynghylch lefelau ymgysylltu a phresenoldeb.

---

‘Rydym wedi gweld cynnydd sydyn yn yr anawsterau sy’n wynebu rhai sydd â diagnosis/nodweddion [anhwylder ar y sbectrwm awtistig] ers [COVID-19]. Mae'r dysgwyr hyn yn ei chael yn anodd dychwelyd i ofynion bywyd ysgol a'r effaith y mae amgylchedd yr ysgol yn ei chael ar eu hanghenion.’ (**Gwasanaeth Addysg Sir Ddinbych**)

‘Yn benodol iawn, nid yw'r canllawiau hyn yn cynnwys rhai dysgwyr, yn enwedig y rhai â chyflyrau cronig ac anableddau [... mae] fframio llesiant fel bod pob dysgwr yn 'iach a hyderus' yn gwneud i’r plant hynny na fyddant byth yn 'iach' ymddangos yn anweledig.’ (**Anabledd Dysgu Cymru**)

---

Roedd ymatebion eraill yn ceisio amlygu meysydd lle gellid cryfhau'r canllawiau yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010), yn enwedig mewn perthynas â hunaniaeth rhywedd a chredoau crefyddol, ac yn anuniongyrchol ar sail ethnigrwydd lle nad oes gan rieni y Saesneg na’r Gymraeg fel iaith gyntaf.

---

‘Nid oes digon o sylw'n cael ei roi i rieni/disgyblion sy'n wynebu heriau ieithyddol e.e. disgyblion a rhieni sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.’ (**Undeb**)

---

Mewn ychydig o ymatebion sefydliadol, awgrymwyd y dylid cyd-fynd â chynlluniau gweithredu, polisïau a chanllawiau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y camau gweithredu a’r blaenoriaethau sydd wedi’u nodi yng Nghynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.


Mewn ymateb gan ysgol, mynegwyd pryderon ynghylch plant sy'n derbyn gofal, gan amlygu eu bod yn teimlo y gallai gwasanaethau gofal cymdeithasol wneud mwy i gynorthwyo eu presenoldeb. Nododd un ymatebydd sefydliadol y dylid ystyried plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn nodwedd warchodedig yn yr ystyr hwn, a nododd nifer o ymatebion y byddai dull sy'n seiliedig ar drawma a chydnabod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod o gymorth i blant sy’n derbyn gofal a phob plentyn ifanc.

## 3.5 Pa mor ddefnyddiol, clir a defnyddiadwy yw'r canllawiau

Rhoddodd yr ymatebwyr ystod o safbwyntiau ynghylch a yw'r canllawiau'n ddefnyddiol (Cwestiwn 9), yn hawdd eu defnyddio (Cwestiwn 8), ac wedi'u hesbonio'n glir (Cwestiwn 7).

Roedd tua hanner yr ymatebwyr (49 y cant) yn cytuno bod y canllawiau wedi'u hesbonio'n glir, tra bod 25 y cant yn anghytuno ac nad oedd 21 y cant yn siŵr. Yn yr un modd, roedd 44 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau yn hawdd eu defnyddio, tra bod 20 y cant yn anghytuno a dywedodd 8 y cant nad oeddent yn siŵr.

Ffigur 3.2: Ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 yn golygu 'ddim o gwbl' ac mae 5 yn golygu 'defnyddiol iawn') pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn eich barn chi?




Ffynhonnell: Ymgynghoriad 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' (n=87)

Rhoddodd mwyafrif yr ymatebwyr sefydliadol ymatebion cadarnhaol bod y canllawiau yn hawdd eu defnyddio i weithwyr addysg proffesiynol, ond nododd sawl un y gallai fod yn llai hygyrch i rieni a rhai sy'n rhoi gofal. Awgrymodd nifer o ymatebion y byddai fersiwn symlach wedi'i hanelu'n benodol at rieni, gofalwyr a phobl ifanc yn fuddiol. Fodd bynnag, nododd sawl ymatebydd eu bod o'r farn bod y ddogfen yn rhy hir ac amleiriog yn gyffredinol, a allai atal darllenwyr rhag ymwneud â hi yn llawn. Ymhlith yr awgrymiadau roedd rhannu'r ddogfen yn ddogfennau byrrach, penodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, yn ogystal â chreu fersiwn hawdd ei darllen.

Awgrymodd ychydig o ymatebwyr y gallai'r canllawiau gynnwys cymhorthion gweledol fel ffeithluniau, siartiau, diagramau llif, a chrynodebau i'w gwneud yn fwy deniadol ac yn haws eu deall. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio iaith syml a chlir.

‘Mae’n ddogfen gynhwysfawr, ond tybed a ellid nodi’r wybodaeth mewn dull haws ei ddilyn e.e pwyntiau bwled, siartiau llif ayb.’ (**Undeb**)

Awgrymodd ymatebwyr hefyd, er bod y canllawiau'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, y gallent elwa o strwythur a chydlyniad gwell. Argymhellwyd defnyddio penawdau cliriach, cyfeirio at adrannau pwysig, a rhoi enghreifftiau o arferion da i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu darllen yn llawn ac yn cael eu gweithredu gan y grwpiau rhanddeiliaid perthnasol.

Roedd rhai ymatebion yn gadarnhaol am y cyfeiriadau a'r cyfeirio o fewn y canllawiau. Roedd rhai, fodd bynnag, yn mynegi pryderon ynghylch hygyrchedd dolenni i ddogfennau allanol a bod angen sicrhau bod y dolenni'n parhau'n gyfoes.

## Eglurhad

Gwnaed sawl cais am eglurhad a rhoddwyd awgrymiadau penodol, ac mae’r rhain wedi’u rhestru isod:

- Gofynnwyd am eglurhad ar y broses o gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig a darparu llythyrau rhybuddio mewn perthynas ag absenoldeb gwyliau.
- Eglurhad ar y broses a'r meini prawf ar gyfer gwneud diagnosis o osgoi’r ysgol ar sail emosiwn, o ystyried y rhestrau aros hir ar gyfer gwasanaethau diagnostig a'r mynediad cyfyngedig i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS).
- Canllawiau cliriach ar rolau a chyfrifoldebau ysgolion, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill, yn enwedig o ran prosesau atgyfeirio.
- Eglurhad ar bwy sy'n gyfrifol am gynorthwyo dysgwyr ag absenoldebau sy'n gysylltiedig â misglwyf mewn ysgolion.
- Diffinio’n gliriach rhwng trefniadau addysgu hyblyg ac addysg heblaw yn yr ysgol, yn enwedig pan fydd y ddau ar waith gyda'i gilydd.
- Eglurhad pellach ar hyd y cyfnod a argymhellir ar gyfer lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol, yn ogystal â natur addysg heblaw yn yr ysgol mewn perthynas â phresenoldeb ac ymgysylltiad dysgwyr.
- Eglurhad ar y disgwyliadau a'r gweithdrefnau ar gyfer cyfweliadau ailintegreiddio i rieni/gofalwyr disgyblion a waharddwyd, yn ogystal â'r effaith bosibl ar y dysgwr yn dychwelyd i'r ysgol os nad yw rhiant/gofalwr yn bresennol.
- Canllawiau ar sut y dylai ysgolion ymdrin ag achosion lle caiff dysgwyr eu hanfon adref am resymau disgyblu, gan sicrhau iechyd a diogelwch y dysgwr, y staff a dysgwyr eraill.
- Esboniadau cliriach ar ddefnyddio codau presenoldeb penodol, fel Cod B a Chod C, mewn gwahanol sefyllfaoedd, yn enwedig o ran darpariaeth addysgol amgen ac amserlenni â llai o oriau.
- Eglurhad ar gwmpas a pherthnasedd y canllawiau i wahanol sectorau addysgol, fel colegau addysg bellach, nad ydynt efallai wedi’u cynnwys yn ddigonol ar hyn o bryd.

- Eglurhad ar gwmpas y gefnogaeth a'r cymorth ariannol sydd ar gael i rieni tuag at gostau amrywiol sy'n gysylltiedig â phresenoldeb yn yr ysgol, fel gwisg ysgol, tripiau a chyflenwadau.
- Eglurhad ar gynnwys ymyriadau sy'n seiliedig ar natur, rhaglenni presgripsiynu cymdeithasol, a dysgu yn yr awyr agored yn y canllawiau, yn enwedig mewn perthynas â llesiant ac ymgysylltiad dysgwyr.

## 3.6 Pa mor ddigonol yw'r wybodaeth

Gofynnodd yr ymgynghoriad i ba raddau yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau drafft yn darparu gwybodaeth ddigonol mewn perthynas ag:

- Esbonio'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu y dylid eu mabwysiadu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr (Cwestiwn 10i)
- Nodi'r ffactorau sy'n cyfrannu a all effeithio ar bresenoldeb (Cwestiwn 10ii)
- Cyfeirio at ragor o wybodaeth ac arferion da (Cwestiwn 10iii)
- Cofnodi a dadansoddi data ar bresenoldeb (Cwestiwn 10iv)
- Ymgysylltu â theuluoedd a chymorth amlasiantaethol (Cwestiwn 10v)
- Rheoli absenoldeb yn ffurfiol (Cwestiwn 10vi).

### 3.6.1 Egwyddorion a dulliau gweithredu i wella presenoldeb

Cytunodd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (63 y cant) fod y canllawiau'n darparu gwybodaeth ddigonol wrth esbonio'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu y dylid eu mabwysiadu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr, tra bod 22 y cant yn anghytuno a 10 y cant yn dweud nad oeddent yn siŵr.

Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr fod angen dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan ganiatáu cymorth unigol ac ymyriadau ar gyflymder personol sy'n ymateb i alluoedd ac anghenion plant. Er bod rhai ymatebwyr yn nodi eu bod o'r farn bod yr egwyddorion a'r dulliau gweithredu yn berthnasol ac yn glir, awgrymodd eraill y gallent fod wedi bod yn fwy perthnasol yn y gorffennol neu efallai na fyddent yn mynd i'r afael yn llawn â'r heriau presennol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Roedd nifer o ymatebwyr yn cymeradwyo'r cysyniad o ysgolion bro, gan alw am fwy o bwyslais ar bartneriaethau rhwng ysgolion, teuluoedd, ac amryw sefydliadau cymunedol. Mynegodd ychydig o ymatebwyr bryder ynghylch effaith toriadau cyllid ar wasanaethau cymorth cymunedol. Yn yr un modd, dywedodd sawl ymatebydd y gallai'r canllawiau roi mwy o eglurder ynghylch yr ystod o wasanaethau y gall ysgolion droi atynt am gymorth.

Nodwyd bod datblygu perthnasoedd cadarnhaol, meithrin diwylliant ysgol cefnogol, a chynnal ethos cadarnhaol i gyd yn ddulliau cadarnhaol sy'n cael eu hawgrymu gan y canllawiau. Fodd bynnag, ymatebodd ambell un o'r ymatebwyr yn negyddol i'r awgrym i wenu ar ddisgyblion.

‘Mae pethau fel 'gwenu' ar ddisgyblion yn ymddangos yn eithaf nawddoglyd (yn hytrach na chyngor defnyddiol).’ (**Ysgol**)

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i bwyslais y canllawiau ar ddull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gydag awgrymiadau i dynnu sylw at erthyglau penodol y Confensiwn a hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ohono drwy'r cwricwlwm.

‘Mae'r canllawiau drafft yn rhoi pwyslais priodol ar ddull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr sydd wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a nodau craidd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y Confensiwn. Mae'n rhoi rhesymeg glir dros weithredu dulliau i gryfhau ymgysylltiad â theuluoedd.’ (**Estyn**)

‘Rydym yn cefnogi dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr yn seiliedig ar hawliau'r plentyn, ond rydym yn cydnabod bod yn rhaid i hyn hefyd gael ei gydbwyso â’r cwricwlwm, ysgolion a staffio a hawliau gweithwyr.’ (**Undeb**)

### 3.6.2 Nodi ffactorau sy'n cyfrannu

Cytunodd tri o bob pump ymatebydd (62 y cant) fod y canllawiau'n darparu gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â nodi'r ffactorau sy'n cyfrannu a allai effeithio ar bresenoldeb, tra bod 22 y cant o'r ymatebwyr yn anghytuno a 10 y cant yn dweud nad oeddent yn siŵr.

I gael rhagor o wybodaeth am ymatebion mewn perthynas â nodi ffactorau sy'n cyfrannu, gweler Adran 3.3.

### 3.6.3 Cyfeirio at ragor o wybodaeth ac arferion da

Cytunodd ychydig llai na hanner yr ymatebwyr (46 y cant) fod y canllawiau'n darparu gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â chyfeirio at ragor o wybodaeth ac arferion da, tra bod 20 y cant o'r ymatebwyr yn anghytuno a 29 y cant yn dweud nad oeddent yn siŵr. Awgrymodd llond llaw o ymatebwyr fod cyfeirio at ragor o wybodaeth ac arferion da yn werthfawr; fodd bynnag, roedd ceisiadau am gasglu adnoddau mwy cynhwysfawr a chyfoes, o bosibl yn cynnwys strategaethau ymarferol a chanllawiau damcaniaethol. Roedd yr ymatebwyr yn argymell trefnu'r adnoddau a'r canllawiau pellach mewn modd hawdd ei gyrraedd, fel atodiad, er hwylustod cynulleidfaoedd perthnasol y canllawiau.

### 3.6.4 Cofnodi a dadansoddi data ar bresenoldeb

Cytunodd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (67 y cant) fod y canllawiau'n darparu gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â chofnodi a dadansoddi data ar bresenoldeb, tra bod 10 y cant o'r ymatebwyr yn anghytuno ac 16 y cant yn dweud nad oeddent yn siŵr. Nododd llawer o ymatebion fod y canllawiau yn atgyfnerthu gofynion cyfreithiol ac yn darparu datganiadau clir ynghylch defnyddio codau absenoldeb. Nododd ychydig o ymatebion mai'r Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan sy'n darparu manylion ac eglurder yn y maes hwn.

I rai ymatebwyr, yn enwedig sefydliadau'r trydydd sector, mae disgresiwn ysgolion i bennu pa mor gyfiawnadwy yw rhesymau dros absenoldeb yn parhau i fod yn bryder, gyda nifer o ymatebwyr yn edrych am ddatganiadau cywir, clir a diamwys yn ymwneud â defnyddio 'cod B'. Yn ogystal, awgrymwyd codau penodol ar gyfer materion fel iechyd meddwl gwael, absenoldeb yn ymwneud â mislif, ac osgoi'r ysgol ar sail emosiwn, i helpu i wella monitro a dealltwriaeth o'u heffaith. Gofynnwyd am arweiniad clir hefyd ar sut i reoli absenoldebau sy'n gysylltiedig â gorbryder, awtistiaeth, ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD). Nododd un ymatebydd y dylai ysgolion ystyried a yw gofyn am dystiolaeth feddygol yn briodol neu'n gyfreithlon mewn achosion o'r fath.

'Byddai'n dda pe bai'r codau absenoldeb yn cael eu rhoi at ei gilydd ar ffurf tabl syml a fyddai'n hwylus i athrawon gyfeirio ato.' (**Undeb**)

Gofynnodd un unigolyn am brosesau gwell i rieni roi gwybod am absenoldebau, megis trwy borth ar-lein. Nododd unigolyn arall na ddylai ysgolion ddefnyddio data ar bresenoldeb fel unig fesur o lwyddiant o ran ymgysylltu a phresenoldeb, ac awgrymodd un ymateb sefydliadol y gallai'r gorddibyniaeth ar bresenoldeb fel mesur o ymgysylltu a llwyddiant arwain at ganlyniadau negyddol.

Nododd un awdurdod lleol fod y cyfeiriad at gymharu data ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn teimlo'n anghydnaws â'r cyfarwyddyd i symud oddi wrth hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan awgrymu bod argaeledd setiau data yn golygu ei bod yn anoddach cymharu.

'Ar hyn o bryd, mae arferion casglu data yn anghyson rhwng [awdurdodau lleol], gwasanaethau lles addysg, a [Swyddogion Lles Addysg]. Nid ydym yn casglu data ar yr un pethau ar yr un pryd. Byddai mwy o arweiniad ar ddull unedig o ymdrin â hyn yn ddefnyddiol, hyd yn oed pe bai'n astudiaeth achos ac yn awgrym o ffordd ymlaen.' (**Gwasanaeth Lles Addysg – Abertawe**)

Rhoddodd ychydig o ymatebion sefydliadol sylwadau ar amserlenni â llai o oriau, gydag un yn nodi ei fod yn ddefnyddiol helpu ysgolion a theuluoedd i weld y dull gweithredu hwn fel mesur cefnogol. Rhoddodd yr ymatebwyr rai meysydd y teimlent y gellid eu cryfhau. Yn yr un modd, nododd y Comisiynydd Plant brofiad o waith achos sy'n dangos mai prin yw'r plant sydd yn dychwelyd i amserlen lawn ar ôl bod ar amserlen â llai o oriau, gan nodi'r pwysau y mae hyn yn ei roi ar yr uned deuluol a'r potensial i ymddieithrio ymhellach o addysg.

‘Gellid cryfhau'r canllawiau hefyd drwy nodi, er y gallai fod amgylchiadau lle mae angen amserlenni â llai o oriau ar gyfer lles neu anghenion addysgol penodol dysgwyr unigol, y dylid ymdrechu i leihau'r anfanteision posibl trwy ddarparu cymorth priodol, monitro cynnydd, a sicrhau profiad dysgu cynhwysfawr a diddorol (er y ffaith bod llai o oriau).’ (**Estyn**)

### 3.6.5 Ymgysylltu â theuluoedd a chymorth amlasiantaethol

Cytunodd tri o bob pump ymatebydd (60 y cant) fod y canllawiau'n darparu gwybodaeth ddigonol mewn perthynas ag ymgysylltu â theuluoedd a chymorth amlasiantaethol, tra bod 16 y cant o'r ymatebwyr yn anghytuno a 18 y cant yn dweud nad oeddent yn siŵr.

Roedd yr ymatebion yn mynegi pryderon ac awgrymiadau amrywiol yn ymwneud ag ymgysylltu â theuluoedd a chymorth amlasiantaethol. Roedd cydnabyddiaeth, er bod y canllawiau'n mynd i'r afael â'r agweddau hyn, y gallai gwir hygyrchedd ac effeithiolrwydd gweithio gydag asiantaethau eraill fod yn gyfyngedig oherwydd prinder adnoddau a throthwy uchel ar gyfer ymyrryd. Roedd rhai ymatebion yn galw am i rolau'r Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd fod yn orfodol a bod cyllid yn cael ei ddarparu ar eu cyfer ym mhob ysgol, gyda rhai ymatebwyr sefydliadol yn nodi enghreifftiau lle nad yw plant a'u teuluoedd wedi cael cymorth digonol i ymdrin ag absenoldeb cyson a gwaharddiadau.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn edrych am enghreifftiau o gamau ymarferol a diriaethol i sicrhau ymgysylltiad teuluol a chymorth amlasiantaethol effeithiol, tra'n cydnabod bod heriau oherwydd toriadau cyllidebol a materion systemig.

‘Roedd y canllawiau'n cynorthwyo'r gwaith hwn wrth helpu i chwalu rhwystrau a chynnwys llais y plentyn.’ (**Gwasanaeth Ieuenctid Conwy**)

Nododd rhai ymatebion y gallai'r adran hon gyfeirio at y canllawiau presennol ar Ysgolion Bro, a Fframwaith NYTH a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Yn yr un modd, amlygodd nifer o ymatebion bwysigrwydd llais y disgybl / person ifanc ynghylch pob agwedd ar bresenoldeb ac ymgysylltu, gan gyfeirio at Gyda’n gilydd (creu cyngor ysgol uwchradd cryf sy’n cynrychioli pawb) fel canllaw yn y maes hwn.

### 3.6.6 Rheoli absenoldeb yn ffurfiol

Cymysg oedd yr ymatebion ynghylch rheoli absenoldeb yn ffurfiol, gyda sawl ymatebydd yn croesawu pwysigrwydd nodi'n gynnar, ynghyd â'r manylion ynghylch Cynlluniau Cymorth Bugeiliol. Cytunodd 56 y cant o'r ymatebwyr fod y canllawiau'n darparu gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â rheoli absenoldeb yn ffurfiol, tra bod 11 y cant yn anghytuno ac 19 y cant yn dweud nad oeddent yn siŵr.

Mae prosesau fel ymatebion diwrnod cyntaf a chyswllt dilynol ynghylch unrhyw bryderon diogelu yn cael eu nodi yn y canllawiau, ac roedd rhai ymatebwyr yn hyderus bod y canllawiau yn esbonio'r broses ynghylch pam y byddai angen y rhain.

---

'Mae'r siart llif yn offeryn defnyddiol i alluogi ysgolion i ddeall y broses unwaith y bydd atgyfeiriad wedi'i wneud i'r Gwasanaeth Lles Addysg a'r gwaith y mae angen ei gwblhau cyn rheoli absenoldeb yn ffurfiol.' (**Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg, Cyngor Sir Ceredigion**)

---

Fodd bynnag, awgrymodd ychydig o ymatebwyr ag ystod o safbwyntiau fod y canllawiau arfaethedig yn tybio bod digon o staffio ac adnoddau ar waith i ymdrin yn effeithiol â phob cam o'r broses o reoli absenoldeb yn ffurfiol. Amlygodd rhai ymatebwyr y gall y system fod yn annigonol pan fydd asiantaethau wedi'u gorlethu, a allai arwain at y baich yn disgyn ar ysgolion.

Pwysleisiodd ychydig o ymatebwyr yr angen i ysgolion ddihysbyddu pob proses ac ymyriad anffurfiol cyn troi at fesurau rheoli absenoldeb yn ffurfiol, tra bod nifer o ymatebion yn mynegi'r angen am ddull cydweithredol gydag awdurdodau lleol a'r system gyfreithiol.

---

'Ni ddylai'r cynigion hyn ddisgwyl i staff ysgolion fynd y tu hwnt i'w cylch gwaith a pheryglu niweidio'r berthynas sydd ganddynt â theuluoedd, gydag unrhyw gamau gorfodi neu sancsiynau angenrheidiol bob amser yn gyfrifoldeb yr awdurdod lleol a'r system gyfreithiol yn unig.' (**Undeb**)

---

Roedd ychydig achosion lle mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch defnyddio Cynlluniau Cymorth Bugeiliol mewn prosesau anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer plant ifanc iawn. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y gellid defnyddio Cynlluniau Cymorth Bugeiliol yn amhriodol, gan alw am ddull yn seiliedig ar drawma i osgoi mesurau cosbol a allai arwain at ddysgwyr a theuluoedd yn ymddieithrio. Yn yr un modd, gofynnodd un ymatebydd am eglurhad ar y defnydd o Gynlluniau Cymorth Bugeiliol, gan awgrymu bod defnyddio'r Cynlluniau hyn fel modd o reoli ymddygiad yn rhan o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar waharddiadau.

'Rydym yn gwrthwynebu'r defnydd o Hysbysiadau Cosb Benodedig, gan eu bod yn effeithio'n anghymesur ar deuluoedd incwm is.' (**Comisiynydd Plant Cymru**)

## 3.7 Diffiniad o absenoldeb cyson

Cynigiodd yr ymatebwyr ystod o safbwyntiau ynghylch y cynnig y dylid diwygio'r diffiniad ystadegol o absenoldeb cyson i dros 10% o sesiynau (Cwestiwn 11). Cytunodd tua hanner (46 y cant) yr ymatebwyr y dylid diwygio'r diffiniad o absenoldeb cyson o 20 y cant i 10 y cant, gyda chwarter (24 y cant) yn dweud na ddylai gael ei ddiwygio, a thua'r un gyfran (23 y cant) yn dweud nad oeddent yn siŵr.

Rhoddodd yr ymatebwyr ystod o safbwyntiau ar y newidiadau penodol a awgrymwyd gan y canllawiau ac ar yr egwyddor gyffredinol o absenoldeb cyson. Nododd rhai ymatebwyr yn gadarnhaol y gallai newid y diffiniad roi'r cyfle i ymyrryd yn gynnar, gan ei bod yn anodd i lawer o ddisgyblion ail-ymgysylltu â'r system addysg unwaith y byddant wedi cyrraedd sefyllfa o 20 y cant o absenoldeb.

Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebwyr a oedd wedi ateb 'Ydw' i'r cwestiwn hefyd yn rhoi adborth ynghylch sut y gellid cryfhau'r canllawiau, ac yn mynegi'r canlyniadau negyddol posibl yn ogystal â'r myfyrdodau ar newid y diffiniad y byddai angen eu hystyried cyn rhoi trothwy newydd ar waith yn y diffiniad.

'Byddai cael diffiniad mwy penodol ar gyfer absenoldeb cyson yn ei gwneud yn haws ei ddeall mewn cyd-destun ystadegol. Byddai'n dal i fod yn anfantais i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd mynychu, neu sy'n cael anawsterau, oherwydd hyd yn oed os oes cynllun yn ei le iddynt ddychwelyd fesul cam, neu ar amserlen â llai o oriau, yna, o ran hanfod, maent yn dal i gael eu cosbi am eu presenoldeb hyd yn oed os ydynt yn mynychu'n llawn yn ôl eu cynllun.' (**Cymorth ac Addysg Iechyd Meddwl, Llesiant ac Ymddygiad DASH CIC**)

'[...] Mae'r ddadl ynghylch pwyll a chysondeb o ran dull gweithredu yn un sylweddol fan yma. Mae newid y diffiniad ystadegol o absenoldeb cyson fel ei fod yn unol â'r diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn Lloegr yn caniatáu rhywfaint o gymariaethau defnyddiol â'r DU yn ehangach, ond yn y tymor byr bydd yn gwneud cymhariaeth ystyrlon â data blaenorol Cymru yn llai posibl, ac mewn gwirionedd gall wneud i'r gyfradd absenoldeb ymddangos yn waeth na'r presennol.' (**Undeb**)

> ‘Nid yw'r newid yn y diffiniad ei hun yn broblemus a gall ei gwneud yn glir i deuluoedd ba lefelau presenoldeb sy'n annerbyniol (os caiff hyn ei gyfleu'n genedlaethol gan Lywodraeth Cymru). Gallai fod elfen gefnogol yn hyn i ysgolion ac [awdurdodau lleol].’ (**Awdurdod lleol – dienw**)

Cytunodd llawer o'r ymatebwyr mewn egwyddor y dylid diwygio'r diffiniad o absenoldeb cyson, ond roeddent hefyd yn betrusgar o ran pa oblygiadau y gallai'r pwysau ychwanegol eu cyflwyno i system addysg sydd eisoes yn ei chael yn anodd o ran capasiti, staffio a chyllid yn yr hinsawdd bresennol. Yn hytrach, roedd rhai yn cwestiynu ai dyma'r amseru cywir i wneud newid o'r fath.

> ‘Rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r newid hwn o safbwynt y person ifanc o ran sicrhau eu diogelwch a'u cyflawniad. Fodd bynnag, mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos cyfradd bresenoldeb gyfartalog i Gymru o 89.5 y cant. Ar un ystyr, byddai'r 'dysgwr cyffredin' yn absennol yn gyson o dan y cynnig hwn. Byddai mater enfawr ynghylch llwyth gwaith o ran yr adnodd ychwanegol y byddai ei angen i wneud i'r newid hwn ddylanwadu ar arferion gwirioneddol mewn ysgolion ac [awdurdodau lleol].’ (**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**)

Rhoddodd llawer o sefydliadau anllywodraethol adborth a allai wella'r tebygolrwydd y byddai newid y diffiniad yn arwain at newidiadau cadarnhaol i ddisgyblion a theuluoedd sy’n cael eu heffeithio. Ychwanegodd nifer o ymatebwyr fod ffactorau cymhleth yn gyrru absenoldebau yn ysgolion Cymru. Roedd rhai ymatebwyr yn galw am systemau unigol wedi'u fframio o amgylch anghenion pob plentyn, gan ystyried eu heriau unigol o ran mynychu'r ysgol, cyn llunio barn ynghylch pa strategaethau i’w defnyddio ar gyfer pob plentyn.

> ‘Ni ellir ystyried presenoldeb ar ei ben ei hun. Fel a amlygwyd, mae llawer o ffactorau cydgysylltiedig ac sy’n gorgyffwrdd sy’n achosi absenoldeb a natur amrywiol profiad y dysgwr yn yr ysgol a gartref. Dylem ystyried nad yw’r mesur hwn o reidrwydd yn gyfystyr â 'phresenoldeb da', ond ei fod yn ffordd i ystyried yr hyn y gallai fod ei angen i gynorthwyo. [...] Yn bwysicaf oll, dylem feddwl yn ofalus am ddarostwng plant a'u teuluoedd i rifau ystadegol. Mae llawer o ffactorau a allai arwain at 'absenoldeb cyson', a dylai unrhyw ddiffiniad ystadegol gyfeirio at hyn.’ (**Cymdeithas Seicolegol Prydain**)

Soniodd sawl ysgol ac awdurdod lleol eu bod yn gadarnhaol am newid y diffiniad fel ei fod yn cyd-fynd â’r hyn a ddefnyddir yn Lloegr, gan arwain at fwy o gymhariaeth ar draws y gwledydd. Nododd rhai ymatebwyr y byddai hyn yn negyddol, gan gyfeirio at ddiffyg hyblygrwydd ac unigolrwydd yn y modd yr eir i’r afael â phresenoldeb disgyblion yn system Lloegr a bod hynny er anfantais i blant sy’n cael eu heffeithio gan faterion cymhleth a allai arwain at bresenoldeb is.

## 3.8 Y Gymraeg

Cynigiodd yr ymatebwyr amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch yr effeithiau y byddai'r canllawiau drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (Cwestiynau 17 ac 18).

Er bod llawer o'r ymatebwyr yn teimlo efallai na fydd y canllawiau presenoldeb eu hunain yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg, gwelwyd amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch arwyddocâd presenoldeb o ran y defnydd o'r Gymraeg a'r angen am ddulliau cynhwysol o ymwneud â’r iaith. Nid oedd rhai ymatebwyr yn rhagweld unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r canllawiau, ac roedd rhai yn mynegi pryderon ynghylch canfyddiad o flaenoriaethu’r Gymraeg dros ffactorau eraill yn ymwneud â phresenoldeb.

Cyfeiriodd rhai ymatebion at bwysigrwydd cynnig cymorth yn y dewis iaith, yn enwedig i rieni sy'n siarad Cymraeg er mwyn cynorthwyo ymgysylltiad ag ysgolion.

---

‘Mae'n amlwg ei bod yn hanfodol wrth ymgysylltu â disgyblion, rhieni a chymunedau lleol mai’r iaith sy’n cael ei defnyddio yw’r un y maent yn fwyaf cyfforddus â hi.’ (**Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru**)

---

Roedd sawl ymatebydd yn dadlau bod gwell presenoldeb, yn enwedig ymhlith disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg gartref, yn hanfodol er mwyn cynnal a gwella'r Gymraeg. Pwysleisiodd ychydig o ymatebion sefydliadol y gallai gwell presenoldeb a lefelau ymgysylltu arwain at fwy o gyfleoedd i ddefnyddio a gwella'r defnydd o'r Gymraeg.

---

‘Mae presenoldeb uchel yn hollbwysig i ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Os mai dim ond yn yr ysgol y maent yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg, mae presenoldeb isel yn mynd i gael effaith negyddol ar eu safon yn y Gymraeg.’ (**Undeb**)

---

Er mwyn lliniaru effeithiau negyddol posibl, roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu mabwysiadu dull cytbwys sy'n ystyried anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Gallai hyn gynnwys darparu cymorth i fyfyrwyr sy'n ei chael hi'n anodd tra'n parchu pwysigrwydd diwylliannol y Gymraeg. Er mwyn cynyddu effeithiau cadarnhaol, pwysleisiodd llawer o ymatebwyr yr angen am strategaethau ymgysylltu sy'n parchu dewisiadau iaith unigolion. Gallai ymgysylltu â theuluoedd a disgyblion yn eu dewis iaith feithrin gwell cyfathrebu a dealltwriaeth.

# 4. Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad annibynnol o ymatebion i'r canllawiau drafft ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr yng Nghymru. Mae'n cyflwyno'r farn a'r safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr o ran nodau eang a nodweddion penodol y canllawiau a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori. Derbyniodd yr ymgynghoriad ymatebion gan ystod o unigolion a rhanddeiliaid, gan gynnwys unigolion a nododd eu bod yn rhieni, athrawon neu lywodraethwyr ysgol. Cafwyd ymatebion sefydliadol gan awdurdodau lleol ledled Cymru, Gwasanaethau Lles Addysg neu Wasanaethau Ieuenctid, Undebau a Chymdeithasau, a sefydliadau'r trydydd sector.

Mae ein dadansoddiad yn canfod cefnogaeth gyffredinol i'r uchelgais arfaethedig sydd wedi'i amlinellu yn y strategaeth, gan sefydliadau ac unigolion a ymatebodd i'r arolwg. Roedd llawer o ymatebion yn rhoi sylwadau ynghylch gweithredu'r canllawiau, yn ogystal â'r angen am arweiniad ymarferol neu strategaethau i hybu lefelau ymgysylltu neu bresenoldeb disgyblion.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn hyderus bod y canllawiau'n nodi cyfrifoldebau ysgolion a llywodraethwyr yn glir, ond mynegodd nifer o ymatebwyr bryder ynghylch y baich y gallai hyn ei roi ar ysgolion. Roedd yr awdurdodau lleol a ymatebodd yn gyffredinol hyderus bod y canllawiau'n nodi eu cyfrifoldebau cyfreithiol eu hunain ond roeddent yn nodi bod angen i bob partner allu dehongli a defnyddio'r canllawiau i ddeall cyfrifoldebau partneriaid eraill sy'n gweithio i hybu lefelau ymgysylltu a phresenoldeb. Roedd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn pwysleisio'r angen am fersiwn hygyrch, cyfeillgar i rieni, a chryno, o'r canllawiau drafft, gyda phwyslais cryf ar sicrhau bod y canllawiau wedi'u targedu at y gynulleidfa fwyaf priodol.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol bod y canllawiau drafft yn cydnabod bod y ffactorau sy'n cyfrannu at bresenoldeb isel yn gymhleth ac yn aml yn gydgysylltiedig. Amlygodd yr ymatebwyr amrywiaeth o rwystrau cymhleth i ymgysylltu a phresenoldeb, gan gynnwys iechyd meddwl gwael ymhlith disgyblion neu rieni, tlodi misglwyf, anfantais economaidd-gymdeithasol a thlodi, diffyg trafnidiaeth, anghenion dysgu ychwanegol, ac anghenion lleferydd ac iaith. Yn yr un modd, nodwyd bod dysgwyr â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) wedi'u cynnwys yn y canllawiau. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn galw am eglurder penodol ar sut i gynorthwyo dysgwyr â nodweddion gwarchodedig yn well ac yn awgrymu y dylai'r canllawiau gyfeirio'n uniongyrchol at Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Rhoddodd mwyafrif yr ymatebwyr sefydliadol ymatebion cadarnhaol bod y canllawiau yn hawdd eu defnyddio i weithwyr addysg proffesiynol, ond nododd sawl un y gallai fod yn llai hygyrch i rieni a rhai sy'n rhoi gofal. Awgrymodd ymatebwyr hefyd, er bod y canllawiau'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, y gallent elwa o strwythur a chydlyniad gwell. Amlygodd yr ymatebwyr sawl eglurhad penodol ar y canllawiau, sydd wedi'u rhestru yn Adran 3.5.

Er bod rhai ymatebwyr yn nodi eu bod o'r farn bod yr egwyddorion a'r dulliau gweithredu ynghylch hybu ymgysylltiad yn berthnasol ac yn glir, awgrymodd eraill y gallent fod wedi bod yn fwy perthnasol yn y gorffennol neu efallai na fyddent yn mynd i'r afael yn llawn â'r heriau presennol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â COVID-19. Yn yr un modd, roedd nifer o ymatebwyr yn cymeradwyo'r cysyniad o ysgolion bro, gan alw am fwy o bwyslais ar bartneriaethau rhwng ysgolion, teuluoedd, ac amryw sefydliadau cymunedol. Nodwyd bod cyfeirio at ragor o wybodaeth ac arferion da hefyd yn werthfawr; fodd bynnag, roedd ceisiadau am gasglu adnoddau mwy cynhwysfawr a chyfoes, gan gynnwys strategaethau ymarferol a chanllawiau damcaniaethol o bosibl.

Rhannodd yr ymatebwyr ystod o farn a safbwyntiau ar gofnodi a dadansoddi data ar bresenoldeb, gyda rhai'n nodi bod y canllawiau yn atgyfnerthu gofynion cyfreithiol ac yn darparu datganiadau clir ynghylch defnyddio codau absenoldeb, ac eraill yn gofyn am eglurder ar y codau hyn. Nododd ychydig o ymatebion mai'r Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan sy'n darparu manylion ac eglurder yn y maes hwn.

Roedd yr ymatebion yn mynegi pryderon ac awgrymiadau amrywiol yn ymwneud ag ymgysylltu â theuluoedd a chymorth amlasiantaethol. Roedd cydnabyddiaeth, er bod y canllawiau'n mynd i'r afael â'r agweddau hyn, y gallai gwir hygyrchedd ac effeithiolrwydd gweithio gydag asiantaethau eraill fod yn gyfyngedig oherwydd prinder adnoddau a throthwy uchel ar gyfer ymyrraeth. Cymysg oedd yr ymatebion ynghylch rheoli absenoldeb yn ffurfiol, gyda phwysigrwydd nodi'n gynnar yn cael ei groesawu gan sawl ymatebydd, ynghyd â'r manylion ynghylch Cynlluniau Cymorth Bugeiliol.

Roedd consensws cyffredinol bod diwygio'r diffiniad o absenoldeb cyson yn gadarnhaol, gan awgrymu y gallai newid y diffiniad gynnig cyfle i ymyrryd yn gynnar. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor y dylid diwygio'r diffiniad o absenoldeb cyson ond roeddent hefyd yn betrusgar o ran pa oblygiadau y gallai'r pwysau ychwanegol eu cyflwyno i'r system addysg.

Er bod llawer o'r ymatebwyr yn teimlo efallai na fydd y canllawiau presenoldeb eu hunain yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg, roedd amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch arwyddocâd presenoldeb a lefelau ymgysylltu yn yr ysgol o ran hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Cyfeiriodd rhai ymatebion at bwysigrwydd cynnig cymorth yn newis iaith unigolyn, yn enwedig er mwyn helpu i ymgysylltu â rhieni sy'n siarad Cymraeg.

# Atodiadau

## Atodiad 1: Data

Cwestiwn 1: A yw'r canllawiau drafft ‘Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi’ yn rhoi gwybodaeth addas, ddefnyddiol ac ymarferol i arweinwyr, athrawon ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion a lleoliadau ‘addysg heblaw yn yr ysgol’ er mwyn galluogi ysgolion a chyrff llywodraethu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Ydynt | 56 | 62% |
| Nac ydynt | 19 | 21% |
| Ddim yn siŵr | 14 | 15% |
| Dim ymateb | 2 | 2% |
| **Cyfanswm** | **91** | |

Cwestiwn 2: A yw'r canllawiau drafft ‘Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi’ yn amlinellu cyfrifoldeb cyfreithiol yr ysgol a'r llywodraethwyr yn glir?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Ydynt | 72 | 79% |
| Nac ydynt | 9 | 10% |
| Ddim yn siŵr | 6 | 7% |
| Dim ymateb | 4 | 4% |
| **Cyfanswm** | **91** | |

Cwestiwn 3: A yw'r canllawiau drafft ‘Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi’ yn amlinellu cyfrifoldebau'r awdurdod lleol yn glir?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Ydynt | 63 | 69% |
| Nac ydynt | 16 | 18% |
| Ddim yn siŵr | 7 | 8% |
| Dim ymateb | 5 | 5% |
| **Cyfanswm** | **91** | |

Cwestiwn 4: A oes ymdriniaeth ddigonol o'r ffactorau sy'n cyfrannu a'r nifer mawr o resymau posibl dros absenoldeb?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Oes | 53 | 58% |
| Nac oes | 25 | 27% |
| Ddim yn siŵr | 12 | 13% |
| Dim ymateb | 1 | 1% |
| **Cyfanswm** | **91** | |

Cwestiwn 5: A yw dysgwyr â nodweddion gwarchodedig wedi'u cynnwys?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydynt | 52 | 57% |
| Nac ydynt | 19 | 21% |
| Ddim yn siŵr | 18 | 20% |
| Dim ymateb | 2 | 2% |
| **Cyfanswm** | **91** | |

Cwestiwn 6: A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi digon o wybodaeth er mwyn i rieni a gofalwyr ddeall eu cyfrifoldeb statudol am sicrhau bod eu plant o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg amser llawn?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydynt | 38 | 42% |
| Nac ydynt | 25 | 27% |
| Ddim yn siŵr | 25 | 27% |
| Dim ymateb | 3 | 3% |
| **Cyfanswm** | **91** | |

Cwestiwn 7: A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn cael eu hesbonio'n glir? Os nad ydynt, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes agweddau rydych yn eu hoffi'n benodol, ac os felly, pam?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydynt | 44 | 49% |
| Nac ydynt | 22 | 25% |
| Ddim yn siŵr | 19 | 21% |
| Dim ymateb | 4 | 4% |
| **Cyfanswm** | **89** | |

Cwestiwn 8: A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn hawdd eu defnyddio? Os nad ydynt, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes agweddau rydych yn eu hoffi'n benodol, ac os felly, pam?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydynt | 40 | 44% |
| Nac ydynt | 18 | 20% |
| Ddim yn siŵr | 25 | 28% |
| Dim ymateb | 7 | 8% |
| **Cyfanswm** | **90** | |

Cwestiwn 9: Ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 yn golygu 'ddim o gwbl' ac mae 5 yn golygu 'defnyddiol iawn') pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn eich barn chi? A oes unrhyw welliannau yr hoffech eu gweld?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| 1 | 9 | 10% |
| 2 | 8 | 9% |
| 3 | 23 | 25% |
| 4 | 34 | 37% |
| 5 | 13 | 14% |
| Dim ymateb | 4 | 4% |
| **Cyfanswm** | **91** | |

Cwestiwn 10.1: A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi gwybodaeth ddigonol mewn perthynas ag esbonio'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu y dylid eu mabwysiadu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Ydynt | 57 | 63% |
| Nac ydynt | 20 | 22% |
| Ddim yn siŵr | 9 | 10% |
| Dim ymateb | 5 | 5% |
| **Cyfanswm** | **91** | |

Cwestiwn 10.2: A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â nodi'r ffactorau sy'n cyfrannu a all effeithio ar bresenoldeb?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Ydynt | 56 | 62% |
| Nac ydynt | 18 | 20% |
| Ddim yn siŵr | 13 | 14% |
| Dim ymateb | 4 | 4% |
| **Cyfanswm** | **91** | |

Cwestiwn 10.3: A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â chyfeirio at ragor o wybodaeth ac arferion da?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Ydynt | 42 | 46% |
| Nac ydynt | 18 | 20% |
| Ddim yn siŵr | 26 | 29% |
| Dim ymateb | 5 | 5% |
| **Cyfanswm** | **91** | |

Cwestiwn 10.4: A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â chofnodi a dadansoddi data ar bresenoldeb?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Ydynt | 61 | 67% |
| Nac ydynt | 9 | 10% |
| Ddim yn siŵr | 15 | 16% |
| Dim ymateb | 6 | 7% |
| **Cyfanswm** | **91** | |

Cwestiwn 10.5: A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi gwybodaeth ddigonol mewn perthynas ag ymgysylltu â theuluoedd a chymorth amlasiantaethol?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Ydynt | 54 | 60% |
| Nac ydynt | 14 | 16% |
| Ddim yn siŵr | 16 | 18% |
| Dim ymateb | 6 | 7% |
| **Cyfanswm** | **90** | |

Cwestiwn 10.6: A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â rheoli absenoldeb yn ffurfiol?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Ydynt | 56 | 62% |
| Nac ydynt | 10 | 11% |
| Ddim yn siŵr | 17 | 19% |
| Dim ymateb | 8 | 9% |
| **Cyfanswm** | **91** | |

Cwestiwn 11: At ddibenion ystadegol, mae absenoldeb cyson wedi ei ddiffinio yng Nghymru fel absenoldeb am dros 20% o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid diwygio'r diffiniad ystadegol o absenoldeb cyson i dros 10% o sesiynau, sef y diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr ar hyn o bryd. Ydych chi'n cytuno ai peidio â'r cynnig hwn a pham?

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Ydw | 42 | 46% |
| Nac ydw | 22 | 24% |
| Ddim yn siŵr | 21 | 23% |
| Dim ymateb | 6 | 7% |
| **Cyfanswm** | **91** | |

# Atodiad 2: Cwestiynau ymgynghori

## Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi

### Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1** – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi gwybodaeth addas, ddefnyddiol ac ymarferol i arweinwyr, athrawon ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion a lleoliadau 'addysg heblaw yn yr ysgol' er mwyn galluogi ysgolion a chyrff llywodraethu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

Sylwadau ategol:

**Cwestiwn 2** – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn amlinellu cyfrifoldeb cyfreithiol yr ysgol a'r llywodraethwyr yn glir?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

Sylwadau ategol:

**Cwestiwn 3** – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn amlinellu cyfrifoldebau'r awdurdod lleol yn glir?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

Sylwadau ategol:

**Cwestiwn 4** – A oes ymdriniaeth ddigonol o'r ffactorau sy'n cyfrannu a'r nifer mawr o resymau posibl dros absenoldeb?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

Sylwadau ategol:

**Cwestiwn 5** – A yw dysgwyr â nodweddion gwarchodedig wedi'u cynnwys?

| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol:**

**Cwestiwn 6** – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi digon o wybodaeth er mwyn i rieni a gofalwyr ddeall eu cyfrifoldeb statudol am sicrhau bod eu plant o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg amser llawn?

| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol:**

**Cwestiwn 7** – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn cael eu hesbonio'n glir? Os nad ydynt, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes agweddau rydych yn eu hoffi'n benodol, ac os felly, pam?

| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**:

**Cwestiwn 8** – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn hawdd eu defnyddio? Os nad ydynt, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes agweddau rydych yn eu hoffi'n benodol, ac os felly, pam?

| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol:**

**Cwestiwn 9 –** Ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 yn golygu 'ddim o gwbl' ac mae 5 yn golygu 'defnyddiol iawn') pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn eich barn chi? A oes unrhyw welliannau yr hoffech eu gweld?

| 1 | ☐ | 2 | ☐ | 3 | ☐ | 4 | ☐ | 5 | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**:

**Cwestiwn 10** – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â'r canlynol:

i. esbonio'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu y dylid eu mabwysiadu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr?

| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Sylwadau ategol:

ii. nodi'r ffactorau sy'n cyfrannu a all effeithio ar bresenoldeb?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

Sylwadau ategol:

iii. cyfeirio at ragor o wybodaeth ac arferion da?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

Sylwadau ategol:

iv. cofnodi a dadansoddi data ar bresenoldeb?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

Sylwadau ategol:

v. ymgysylltu â theuluoedd a chymorth amlasiantaethol?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

Sylwadau ategol:

vi. rheoli absenoldeb yn ffurfiol?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

Sylwadau ategol:

Cwestiwn 11 – At ddibenion ystadegol, mae absenoldeb cyson wedi ei ddiffinio yng Nghymru fel absenoldeb am dros 20% o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid diwygio'r diffiniad ystadegol o absenoldeb cyson i dros 10% o sesiynau, sef y diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr ar hyn o bryd. Ydych chi'n cytuno ai peidio â'r cynnig hwn a pham?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

Sylwadau ategol:

**Cwestiwn 12** – Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol:

**Cwestiwn 13** – Eglurwch hefyd sut y gallai'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' gael eu llunio neu eu newid yn eich barn chi fel eu bod yn cael effaith gadarnhaol neu'n cynyddu'r effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac nad ydynt yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol:

**Cwestiwn 14** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech chi godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u hystyried yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i wneud hynny:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi ar y Rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch fan yma: ☐

# Atodiad 3: Ymatebwyr sefydliadol

Mae'r rhestr isod yn cynnwys manylion yr ymatebwyr a roddodd fanylion eu sefydliad. Mae rhai enwau neu sefydliadau wedi eu gwneud yn ddienw yn seiliedig ar ddewisiadau'r ymatebwyr.

- Anabledd Dysgu Cymru
- Awdurdod Lleol (dienw)
- Awdurdod Lleol (dienw)
- Awdurdod Lleol (dienw)
- Awdurdod Lleol (dienw)
- Awdurdod Lleol (dienw)
- Awdurdod Lleol (dienw)
- Awdurdod Lleol (dienw)
- Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol (dienw)
- Canolfan Ymchwil Seicogymdeithasol Ffrwythlondeb ac Iechyd Atgenhedlol Cymru, Ysgol Seicoleg, Prifysgol Caerdydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Sir Powys
- Cngor Wrecsam
- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
- Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymorth ac Addysg Iechyd Meddwl, Llesiant ac Ymddygiad DASH CIC
- Estyn
- Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg, Cyngor Sir Ceredigion
- Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg Conwy
- Gwasanaeth Ieuenctid Conwy
- Gwasanaeth Lles Addysg neu Wasanaeth Ieuenctid (dienw)
- Hyfforddiant Diogelu Jane Ashman
- Llywodraethwr Ysgol (dienw)
- Llywodraethwr Ysgol (dienw)
- Llywodraethwr ysgol uwchradd a chynradd
- Mind Casnewydd
- NASUWT Cymru / Undeb yr Athrawon
- Plant yng Nghymru
- Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru UCAC
- Undeb Community
- Ysgol Ganol y Bendigaid Carlo Acutis
- Ysgol Gynradd (dienw)
- Ysgol Gynradd (dienw)
- Ysgol Gynradd (dienw)
- Ysgol Maesteg
- Ysgol Uwchradd (dienw)

Cysylltu â ni

0330 122 8658

wavehill@wavehill.com

wavehill.com


Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol

@wavehilltweets

wavehill

wavehill.com